RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
114/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
19/11/2025

# Gweithredu Dull y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

## Profiadau o ymwreiddio egwyddorion yr RIF yn ymarferol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-570-1

# Gweithredu Dull y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Profiadau o ymwreiddio egwyddorion yr RIF yn ymarferol

Mark Llewellyn a Fiona Verity

Llewellyn, M. a Verity, F. (2025) 'Gweithredu Dull y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: profiadau o ymwreiddio egwyddorion yr RIF yn ymarferol.' Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR xx/2025. Ar gael ar: I'w gadarnhau https://www.llyw.cymru/gweithredur-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-hydref-2024-i-fai-2025

Dyma Adroddiad Gweithredu'r astudiaeth. Defnyddir y canfyddiadau a ddeilliodd o adroddiad y cyfweliadau manwl (Bebb, Bryer a Grover, 2025).

## Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Tîm yr astudiaeth:

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Heledd Bebb, Nia Bryer, Deborah Fitzsimmons, Tony Garthwaite, Mary Lynch, Llinos Haf Spencer, Siôn Tetlow, Carolyn Wallace, a Sarah Wallace.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Brunel Llundain; Prifysgol Abertawe, Ymchwil OB3, a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Iwerddon

Prif Arweinydd yr Astudiaeth:

**Yr Athro Mark Llewellyn**[1]

Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Athro Polisi Iechyd a Gofal,

Prifysgol De Cymru

mark.llewellyn@southwales.ac.uk

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn eiddo i'r ymchwilwyr ac ni chânt eu coleddu o angenrheidrwydd gan Lywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

[1] Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru: Mark Llewellyn — Prifysgol De Cymru

Yr Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ:

## Tabl Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ..... 3

1. Cyflwyniad ..... 11

Fframwaith cysyniadol a dull methodolegol ..... 11

Strwythur a diben yr adroddiad hwn ..... 11

2. Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol – y cyd-destun a'r cymhlethdodau ..... 15

Cyd-destunau sy'n newid ..... 16

Pwysau parhaus ar y system ..... 15

Datblygiadau polisi perthnasol – *System Gofal Cymunedol Integredig (ICSS)* ..... 16

Newidiadau yng Nghanllawiau'r RIF ..... 18

Crynodeb ..... 19

3. Gweithredu'n ymarferol – canfyddiadau ..... 20

Elfennau a dulliau ..... 20

Dulliau ac ymagwedd ..... 20

Prif ganfyddiadau o ran cynllunio a datblygu prosiectau'r RIF ..... 22

Prif ganfyddiadau o ran gweithredu prosiectau'r RIF hyd yma ..... 23

Prif ganfyddiadau o ran y Cymunedau Ymarfer (CoP) ..... 26

4. Goblygiadau gweithredu'r RIF – cydbwyso'r tensiynau ..... 29

Disgrifio'r egwyddorion sy'n sail i'r RIF – tuag at ddeuadau cysyniadol ..... 29

Deall materion cydbwysedd a thensiwn yn y deuadau cysyniadol ..... 32

Asesu a dehongli'r profiad gweithredu ..... 44

Casgliad – 'Tuag at System Gofal Cymunedol Integredig' ..... 47

Cyfeiriadau ..... 48

**Rhestr o'r Tablau**

Tabl 4.1: Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol – Egwyddorion Strwythurol a Gweinyddol ..... 30
Tabl 4.2: Ffurfweddiadau Cychwynnol Cyd-destun[C]-Mecanweithiau[M]-Canlyniadau[O] yn ymwneud â'r deuadau cysyniadol ..... 34

**Rhestr o'r Ffigurau**

Ffigur 1.1: Gwerthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion, Adolygiad a Gwerthusiad Realaidd a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ..... 13
Ffigur 4.1: Naratifau a ymwreiddiwyd – deuadau cysyniadol oddi mewn i'r RIF ..... 31
Ffigur 4.2: Ffurfiau tybiannol o'r 'cydbwysedd' ar draws deuadau cysyniadol yr RIF ..... 32
Ffigur 5.3: Goblygiadau gweithredu ar draws deuadau cysyniadol o fewn yr RIF – cyfredol (Ionawr 2025) ..... 46

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyhoeddwyd gan y tîm ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad[2] ac mae'n mynd i'r afael â chwestiynau'n ymwneud â gweithredu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF). Wrth wneud hyn, mae'n ymdrin â'r ail gwestiwn a ofynnwyd mewn 'Gwerthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion' (P-FE) (Patton, 2018): "O gofio bod egwyddorion wedi'u mynegi (Llewellyn a Verity, 2024), i ba raddau ac ym mha ffyrdd y cedwir atynt yn ymarferol?" ('Gweithredu').

Mae'r ddogfen yn diweddaru'r sefyllfa a bennwyd yn y Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023) ac mae'n myfyrio ar newidiadau sydd wedi dod i ran y cyd-destun polisi a'r cyd-destun gwleidyddol, yn cynnwys momentwm cynyddol mewn perthynas â datblygu 'System Gofal Cymunedol Integredig' ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024). Hefyd, cyflwynir crynodeb o'r gwaith maes a'r arolwg ansoddol a gynhaliwyd yn y cam gweithredu hwn o'n hastudiaeth yn ystod Hydref 2024 (am ragor o wybodaeth, gweler Bebb, Bryer a Grover, 2025), a luniwyd i ddeall profiadau'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu a chyflawni prosiectau a rhaglenni gwaith a ariennir gan yr RIF. Mae'r ddogfen o'r diwedd yn cynnig dadansoddiad o ble y caiff y tensiynau sy'n gynhenid yn y deuadau (sef parau o syniadau, fel y nodir yn Llewellyn a Verity, 2024) eu rheoli'n dda, a ble o bosib y cânt eu rheoli'n llai effeithiol, a chaiff ei llywio gan gyfres gychwynnol o Ffurfweddiadau Cyd-destun-Mecanweithiau-Canlyniadau 'Realaidd'.

### Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol – y cyd-destun a'r cymhlethdodau

Mae'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dal i gynyddu, ac mae disgwyl i'r tuedd hwn barhau. Ceir pwysau parhaus ar y system ar draws adrannau achosion brys, wrth bontio o ofal ysbyty i ofal cymunedol, ac o ran mynediad gofal sylfaenol at wasanaethau iechyd meddwl (yn enwedig i blant a phobl ifanc), yn ogystal â gofal deintyddol. Mae bylchau yn y gweithlu'n cyfrannu at y pwysau hyn, ac maent yn destun pryder parhaus.

Yn ogystal, bu newidiadau allweddol ym mholisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymestyn a chyflymu agenda integreiddio'r llywodraeth. Yr elfen fwyaf arwyddocaol yn hyn o beth yw cyflwyno cynllun ar gyfer 'System Gofal Cymunedol

[2] Gweler Llewellyn a Verity (2024), Verity a Llewellyn (2023), Tetlow et al. (2024), Wallace a Wallace (2024), a Bryer a Bebb (2024).

Integredig' (ICCS). Mae'r 'Glasbrint' ar gyfer ICCS yn rhoi lle canolog i brif elfennau fframwaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) ar gyfer newid y system (h.y. dulliau galluogi, Modelau Gofal a grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth yr RIF, a phrosesau uwchraddio lleol a rhanbarthol yr RIF) ac wedi cynhyrchu gwybodaeth am arferion da ar gyfer llywio Modelau Gofal cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu cydweddiad tri o gynlluniau ariannu'r llywodraeth ar gyfer mentrau integreiddio (yn cynnwys yr RIF); golyga hyn ei fod wedi'i ymwreiddio'n ffurfiol yn y rhaglen waith hon sy'n canolbwyntio ar ofal cymunedol integredig.

Bu hefyd newidiadau yng Nghanllawiau'r RIF – mewn perthynas ag adrodd a chyllido – ac mae hyn yn arwydd o fwy o aeddfedrwydd ac ymddiriedaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r tirlun polisi yn parhau i fod yn un deinamig, yn enwedig o ran datblygiadau yn yr ICCS. Hefyd, mae'r ffaith ein bod ar fin symud i ddwy flynedd olaf cyllid yr RIF yn peri i arweinwyr rhanbarthol a phenderfynwyr polisi cenedlaethol ganolbwyntio ar ystyried a thrafod y gronfa a fydd yn olynu'r RIF.

**Gweithredu'n ymarferol – canfyddiadau**

Er mwyn deall y profiad o weithredu'r RIF, cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau ansoddol gydag arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau a/neu arweinwyr strategol o blith sampl bwriadus o 24 o brosiectau a ariennir gan yr RIF. Ymhellach, cynhaliwyd arolwg o aelodau Cymunedau Ymarfer er mwyn esgor ar dystiolaeth bellach ynglŷn ag un o'r dulliau hollbwysig sy'n sail i weithredu'r RIF (gweler Bebb et al., 2025).

Dyma'r prif ganfyddiadau o ran cynllunio a datblygu'r RIF:

- Cafodd rhai o'r prosiectau RIF a samplwyd eu llywio gan ddata ac asesiad trylwyr o anghenion a chawsant eu siapio gan adborth parhaus gan ddefnyddwyr gwasanaethau, ond ychydig iawn o'r prosiectau a samplwyd sydd wedi mabwysiadu pethau a ddysgwyd gan brosiectau tebyg.
- Yn unol â'r bwriad, mae'r RIF wedi ei ddefnyddio i gefnogi ystod eang o wasanaethau, o ymyriadau gofal acíwt i fesurau ataliol, a cheir tystiolaeth dda bod prosiectau'n datblygu i weithredu mewn modd mwy rhanbarthol ac integredig.

- Mae gweithio'n dda mewn partneriaeth, ynghyd â rheoli ar y cyd, yn elfennau hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn hollbwysig ym mhrosiectau'r RIF mewn rhai rhanbarthau trwy wella gwasanaethau a mynd i'r afael â bylchau; ond mae eu rôl barhaus yn ddibynnol ar argaeledd cyllid a pharhau i weithio mewn partneriaeth.
- Mae'r hyblygrwydd sy'n perthyn i gyllid yr RIF, ynghyd â'r adnoddau a'r seilwaith rhanbarthol a roddwyd ar waith, wedi galluogi prosiectau i arloesi ac addasu i anghenion newidiol, ac mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella dros amser.

Dyma ganfyddiadau hollbwysig mewn perthynas â'r profiad gweithredu hyd yn hyn:

- Mae'r RIF yn galluogi dull sy'n canolbwyntio'n gynyddol ar yr unigolyn wrth ddarparu gweithgareddau atal ac ymyrraeth gynharach, yn cynnwys datblygiadau cymunedol, ond mae ymgorffori newid yn dal i gymryd amser maith.
- Mae model cyflawni'r RIF wedi lleihau problemau o ran recriwtio a chadw staff, ond mae bylchau mewn swyddi arbenigol allweddol yn parhau i lesteirio gallu rhai prosiectau i gyflawni'n ôl y bwriad, a chaiff heriau gweithredol o'r fath eu dwysáu yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle ceir pwysau mawr ar adnoddau.
- Mae integreiddiad a chydnabyddiaeth o'r sector gwerth cymdeithasol yn anghyson. Er y ceir enghreifftiau o'r modd y mae'r trydydd sector yn esgor ar ymatebion cryf sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ceir sawl enghraifft hefyd o achosion pan gollwyd cyfleoedd i gydweithio'n ddyfnach.
- I brosiectau sy'n cyflawni ar lawr gwlad, nid yw'r Modelau Gofal yn golygu llawer ac nid ydynt yn berthnasol iawn. Mae'r prosiectau'n fwy tebygol o ganolbwyntio ar eu hymateb i flaenoriaethau lleol neu ranbarthol, neu ar ategu sbardunau polisi a nodau cenedlaethol eraill.

Dyma ganfyddiadau hollbwysig yn ymwneud â'r Cymunedau Ymarfer:

- Mae'r rhai sy'n mynychu'r Cymunedau Ymarfer o'r farn bod y Cymunedau wedi'u trefnu'n dda, a dim ond ambell awgrym a gafwyd ar gyfer cyflwyno gwelliannau. Ond nid yw'n glir pwy yw'r aelodau targed, ac amheuir a yw'r gynrychiolaeth yn ddigon eang.
- Trwy fynychu cyfarfodydd Cymunedau Ymarfer, mae modd i'r aelodau glywed y diweddaraf am ddatblygiadau polisi, yn ogystal â rhannu dysgu a hwyluso ymgysylltu rhwng gwahanol sectorau.

- Er bod Cymunedau Ymarfer wedi esblygu ers iddynt gael eu sefydlu, mae angen gwneud rhagor o waith i wella dealltwriaeth yr aelodau neu randdeiliaid ehangach yr RIF o amcanion cyffredinol y Cymunedau Ymarfer, a'r modd y caiff y pethau a ddysgir yn sgil trafodaethau eu defnyddio i lywio modelau gofal cenedlaethol.

**Goblygiadau gweithredu'r RIF – cydbwyso'r tensiynau**

Yn ein hadroddiadau blaenorol, pennwyd nifer o egwyddorion hollbwysig sydd wedi cyfrannu at gysyniadu a datblygu'r RIF. Yn yr Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024), aethom ati i gyfuno'r wybodaeth a gasglwyd, gan gydnabod pwysigrwydd y prif densiynau o fewn yr RIF. Bu modd inni bennu nifer o faterion a chysyniadau ar ffurf chwe 'phâr' o syniadau a oedd, yn aml, yn cystadlu gyda'i gilydd mewn rhyw ffordd, fel y nodir yn ein tystiolaeth. Disgrifiwyd y rhain fel 'deuadau cysyniadol', a gwelwyd bod pob un ohonynt wedi'u hymwreiddio yn y naratifau roeddem wedi'u casglu mewn perthynas â'r RIF hyd at yr adeg honno:

**Deuad:** Cydweddiad | Dyhead

Mae a wnelo'r deuad hwn â natur Cronfa y bwriedir iddi gydweddu ag amcanion polisi / hwyluso i weithredu amcanion polisi, ond sydd ag uchelgeisiau uwch o lawer na hyn, o gofio'r bwriad penodol i gyflawni'r addewid o ran darparu gwasanaethau di-dor. Yn aml, mae'r cysyniadau hyn yn gweithio'n groes i'w gilydd yn y modd y mae pobl yn disgrifio'r angen i gyflawni nodau penodol y Gronfa, yn ogystal â bod yn rhan o drawsnewidiad 'system gyfan' a 'sector cyfan'.

**Deuad:** Rheolaeth | Cydweithrediad

O ran y pâr hwn o syniadau, ceir cysylltiad agos iawn â'r ddeinameg pŵer sy'n rhan gynhenid o'r RIF, a'r graddau y mae rhannu pŵer (trwy gydlunio, cydgynhyrchu a chydweithredu) yn newid dros amser. Ni awgrymir yma bod y deuad hwn ar waith rhwng partneriaid cenedlaethol a rhanbarthol yn unig; cydnabyddir ei fod ar waith hefyd o fewn, a rhwng, rhanbarthau a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw.

**Deuad:** Ffyddlondeb | Hyblygrwydd

O ran naratifau'r RIF, ceir tensiynau amlwg yn ymwneud â ffyddlondeb i'r canllawiau a'r egwyddorion cynllunio sydd wrth galon a chraidd y Gronfa ar y naill law (yn enwedig mewn perthynas â Modelau Gofal), a dymuniad y rhai sy'n ceisio

gweithredu'r Gronfa'n ymarferol i gael mwy o hyblygrwydd ar y llaw arall, boed hynny mewn perthynas â chasglu data, adrodd, neu drefniadau eraill.

**Deuad:** Atebolrwydd | Ymreolaeth

Yn yr un modd â'r deuad blaenorol, ceir tensiynau ynghylch y cydbwysedd iawn rhwng dull cymesur o ymdrin ag atebolrwydd, llywodraethu a gwario arian cyhoeddus, ochr yn ochr â chefnogi a ffafrio ymdeimlad mwy o ymreolaeth. Unwaith eto, mae'r tensiynau hyn yn gweithredu ar sawl lefel, a rhwng amryfal bartneriaid – o'r cenedlaethol i'r rhanbarthol, o'r rhanbarthol i'r lleol, ac yn ôl drachefn.

**Deuad:** Perchnogaeth | Partneriaeth

Ceir her barhaus o ran pwy sy'n berchen ar yr RIF, ac i ba raddau y mae a wnelo'r RIF â dull partneriaeth, ynteu rhywbeth arall. Ceir tensiwn cyson rhwng y materion yma, ac mae hyn yn arwydd o'r cydberthnasau ymddiriedol sydd (i raddau mwy neu lai) yn bodoli ar draws y Gronfa, rhwng rhanbarthau, a llywodraeth genedlaethol.

**Deuad:** Strwythur | Galluogedd

Yn fwy cyffredinol, mae'r deuad olaf hwn yn cydnabod natur cyllid a ddarperir gan y llywodraeth am gyfnod penodol, fel yr RIF, a'r ffaith fod cyllid o'r fath yn gorwedd mewn paradeim arbennig. Cydnabyddir yr her a'r tensiwn a geir o fewn yr RIF mewn perthynas â defnyddio galluogedd i fynd i'r afael â dulliau trawsnewid deinamig, yng nghyd-destun strwythurau sefydliadol sy'n bodoli eisoes. Caiff hyn ei ddwysáu pan fo'r galluogedd neu'r trawsnewid yn ceisio newid natur y strwythurau y gweithredir oddi mewn iddynt.


Yn dilyn ein dull P-FE, a chan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd, aethpwyd ati yn yr adroddiad hwn i asesu i ba raddau y mae'r cysyniadau hyn yn cydbwyso gyda'r naill a'r llall i greu effaith gadarnhaol, neu i ba raddau y maent yn anghytbwys ac yn ffafrio un cysyniad ar draul cysyniad arall. Ategwyd hyn gan ddadansoddiad Realaidd o'r data a ddaw i'r amlwg.

Trwy ddeall y cyd-destunau deinamig (Patton, 2018), rhai o'r tensiynau cynhenid yn naratifau'r RIF, a'r cydbwysedd rhwng y cysyniadau hyn, gallwn ddeall beth yn union sy'n gweithio, ymhle, ac ym mha amgylchiadau, ac o'r herwydd gallwn ddeall sut all yr RIF gyflawni ei nodau.

Felly, beth y mae'r dystiolaeth a gyflwynir uchod yn ei olygu o ran mapio'r cydbwysedd rhwng y cysyniadau yn yr RIF? Mae Ffigur 5.3 (a atgynhyrchir isod) yn

cynnwys ein hasesiad cyfredol o ble yn union y gorwedd y cydbwysedd hwnnw ar draws y chwe deuad:

| Continuum across embedded narratives | Continwwm ar draws naratifau sydd wedi'u hymwreiddio |
|---|---|
| [including original design principles, intentions and experiences of implementation] | [yn cynnwys egwyddorion cynllunio gwreiddiol, bwriadau a phrofiadau o ran gweithredu] |
| Alignment | Cydweddiad |
| Aspiration | Dyhead |
| Control | Rheolaeth |
| Collaboration | Cydweithrediad |
| Fidelity | Ffyddlondeb |
| Flexibility | Hyblygrwydd |
| Accountability | Atebolrwydd |
| Autonomy | Ymreolaeth |
| Ownership | Perchnogaeth |
| Partnership | Partneriaeth |
| Structure | Strwythur |
| Agency | Galluogedd |




Teitl Ffigur 5.3 yw 'goblygiadau o ran gweithredu' – golyga hyn ein bod, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, wedi pennu'r goblygiadau ar gyfer y chwe phâr o gysyniadau. Isod, ceir crynodeb o bob un, ar sail y dystiolaeth a gaiff ei chrynhoi yn yr adroddiad hwn – pa un a fydd y dystiolaeth yn deillio o Bennod 2 (y cyd-destun

newidiol), Pennod 3 (cyfranogwyr), neu'r bennod hon sy'n defnyddio'r CMOCs uchod. Felly, ar sail ein tystiolaeth:

- Cydweddiad | Dyhead – ceir cydbwysedd da yn y cysyniadau yma ar hyn o bryd.
- Rheolaeth | Cydweithrediad – ni cheir cydbwysedd ar hyn o bryd, ond dim ond rhywfaint mwy o bwyslais a roddir ar gydweithrediad o gymharu â rheolaeth.
- Ffyddlondeb | Hyblygrwydd – ceir cydbwysedd da yn y cysyniadau yma ar hyn o bryd.
- Atebolrwydd | Ymreolaeth – ni cheir cydbwysedd ar hyn o bryd, ond dim ond rhywfaint mwy o bwyslais a roddir ar atebolrwydd o gymharu ag ymreolaeth.
- Perchnogaeth | Partneriaeth – ni cheir cydbwysedd ar hyn o bryd, ond dim ond rhywfaint mwy o bwyslais a roddir ar berchnogaeth o gymharu â phartneriaeth.
- Strwythur | Galluogedd – ni cheir cydbwysedd ar hyn o bryd, ond dim ond rhywfaint mwy o bwyslais a roddir ar strwythur o gymharu â galluogedd.

Yn gyffredinol, gellir coleddu safbwynt optimistaidd, fel y dengys y cydbwysedd yn y deuadau – ar y cyfan, mae'r darlun hwn yn eithaf cadarnhaol, ar sail y profiad gweithredu. Trwy fynd i'r afael â gwaith ychwanegol, bydd modd i'r tîm bennu a fydd y deuadau lle ceir cydbwysedd llwyr (neu gydbwysedd da) yn galluogi'r RIF i esgor ar y 'canlyniadau a ddymunir' (Patton, 2018) yn y gwaith a wnawn yn y dyfodol.

Ond mae'n bwysig nodi bod y cyd-destunau hyn yn 'gyd-destunau deinamig' (yng ngeiriau Patton), a bod modd i'r sefyllfa amrywio a newid – mewn perthynas â pholisïau, elfennau strategol ac elfennau gweithredol.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu partneriaeth a gaiff ei harwain gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru, i werthuso'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

1.2 Bydd y prosiect yn cyflwyno gwerthusiad annibynnol, trylwyr a chynhwysfawr er mwyn asesu nodau, gweithrediad ac effaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (RIF) 2022-2027. Bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio'n bennaf ar asesu i ba raddau y mae'r chwe model cenedlaethol newydd ar gyfer integreiddio gofal wedi llwyddo i gael eu datblygu, eu hymwreiddio a'u 'hehangu', gyda'u helfennau craidd wedi'u pennu'n glir, ac i ba raddau y mae canlyniadau lefel uchel yr RIF mewn perthynas â 'chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion' wedi'u bodloni. Bydd y gwerthusiad yn mynd ati'n benodol i ddangos sut, ac ym mha ffyrdd, y mae'r RIF wedi cael effaith gadarnhaol ar grwpiau blaneoriaeth y gronfa, trwy fynegi'n glir y newidiadau a gyflwynwyd yn sgil rhoi'r gronfa ar waith. Mae hyn yn cynnwys deall yn fanwl pam y mae rhai agweddau wedi bod yn llwyddiannus neu'n llai llwyddiannus.

**Fframwaith cysyniadol a dull methodolegol**

1.3 Caiff y gwerthusiad cyffredinol ei fframio gan ddull a elwir yn 'Werthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion' (P-FE) (Patton, 2018). Mae P-FE yn 'sensitif i gyd-destun' (Patton, 2018) ac mae'n canolbwyntio ar y modd y mae egwyddorion yn arwain y gwaith o gyflawni ac addasu ymyriadau ar adegau arbennig, mewn mannau arbennig ac mewn sefyllfaoedd arbennig. Atebir tri chwestiwn canolog mewn gwerthusiad P-FE; yr ail gwestiwn yw canolbwynt yr adroddiad hwn.

1. I ba raddau y mynegwyd egwyddorion ystyrlon a gwerthusadwy? ('Cysyniadu')
2. Os oes egwyddorion wedi'u mynegi, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y cedwir atynt yn ymarferol? ('Gweithredu');
3. Os cedwir atynt, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau a chwenychir? ('Gwireddu') (Patton, 2018, t.220).

1.4 Mae tri chwestiwn y P-FE yn sail i strwythur yr astudiaeth a thrwyddynt hwy y bydd yr amcanion a bennir yn y fanyleb yn cael eu hasesu. Wrth lunio'r gwerthusiad, cyhoeddwyd 'Fframwaith ar gyfer Newid' (Verity a Llewellyn, 2023) sy'n nodi'r cyd-destun ehangach, bwriadau'r ymyriad, a'r egwyddorion craidd a'r canlyniadau

disgwyliedig. Bydd gwahanol fathau o ddulliau casglu data yn cael eu defnyddio, yn cynnwys dadansoddi data meintiol ac ansoddol, ochr yn ochr â methodoleg Adolygu a Gwerthuso Realaidd  (Pawson a Tilley, 1997). Disgrifir y dull yn Ffigur 1.1 (drosodd).

**Strwythur a diben yr adroddiad hwn**

1.5 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyhoeddwyd gan y tîm ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad[3] ac mae'n mynd i'r afael â chwestiynau'n ymwneud â gweithredu'r RIF. Wrth wneud hyn, mae'n defnyddio tair o ffynonellau tystiolaeth a gynhyrchwyd yn ail flwyddyn yr astudiaeth gwerthuso.

1.6 Ym Mhennod 2, cyflwynwn y diweddaraf ynglŷn â'r sefyllfa a nodwyd yn y Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023) a myfyriwn ar newidiadau yn y cyd-destun polisi a'r cyd-destun gwleidyddol, yn cynnwys momentwm cynyddol mewn perthynas â datblygu 'System Gofal Cymunedol Integredig' ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae'r newidiadau hyn wedi cael ôl-effaith ar ganllawiau gwreiddiol yr RIF (Llywodraeth Cymru, 2022) a hefyd cânt effaith barhaus ar y modd y mae prosiectau a rhanbarthau'n gweithredu ac yn 'cyflawni' yr RIF.

1.7 Ym Mhennod 3, ceir crynodeb o'r gwaith maes a'r arolwg ansoddol a gynhaliwyd yn y cam gweithredu hwn o'n hastudiaeth yn ystod Hydref 2024 (am ragor o wybodaeth, gweler Bebb, Bryer a Grover, 2025). Diben y gwaith hwn oedd deall profiadau staff Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, arweinwyr prosiectau ac aelodau Cymunedau Ymarfer o ran gweithredu a chyflawni prosiectau a rhaglenni gwaith a ariennir gan yr RIF, ac o ran cyfrannu at ddatblygu Modelau Gofal Cenedlaethol.


1.8 Yn olaf, ym Mhennod 4 soniwn drachefn am y dadansoddiad a nodir yn yr Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024). Yn y ddogfen honno, nodir chwe 'Deuad Cysyniadol', sef parau o syniadau sydd wedi'u hymwreiddio yn naratifau'r RIF. Er mwyn sicrhau y bydd modd i'r RIF fod yn gronfa genedlaethol effeithiol, dadleuwn fod yn rhaid cydbwyso'r deuadau hyn. Wrth ddirwyn yr adroddiad hwn i ben, dadansoddwn ble y caiff y tensiynau sy'n gynhenid yn y deuadau hyn eu rheoli'n dda, a ble y cânt eu rheoli'n llai effeithiol. Caiff y dadansoddiad hwn ei lywio gan y dystiolaeth sy'n deillio o Benodau 2 a 3, ond hefyd defnyddir cyfres gychwynnol o Ffurfweddiadau 'Cyd-destun-Mecanweithiau-Canlyniadau 'Realaidd'.

[3] Gweler Llewellyn a Verity (2024), Verity a Llewellyn (2023), Tetlow et al. (2024), Wallace a Wallace (2024), a Bryer a Bebb (2024).

1.9 Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ail gwestiwn canolog yn ein hastudiaeth (gweler Paragraff 1.3 uchod), ac wrth wneud hyn cyflwynir trosolwg o'r dystiolaeth newydd a gynhyrchwyd ym Mlwyddyn 2 y gwerthusiad – gan fynd ati ar yr un pryd i adeiladu ar y dystiolaeth sy'n deillio o Flwyddyn 1.

**Ffigur 1.1: Gwerthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion, Adolygiad a Gwerthusiad Realaidd a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol**

| **Conceptual framework** | **Fframwaith cysyniadol** |
|---|---|
| OVERARCHING FRAMEWORK = Principles – Focused Evaluation (P-FE) | FFRAMWAITH CYFFREDIN = Gwerthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion (P-FE) |
| P-FE allows for the synthesis of findings across three key questions and components (Patton, 2018) | Mae'r P-FE yn ei gwneud yn bosibl i gyfuno canfyddiadau ar draws tri chwestiwn ac elfen allweddol (Patton, 2018) |
| **Key P-FE questions and components** | **Cwestiynau ac elfennau allweddol y P-FE** |
| **1. Conceptualisation (Y1)** | **1. Cysyniadu (B1)** |
| *To what extent have meaningful and evaluable principles been articulated and understood?* | *I ba raddau y mynegwyd ac y deallwyd egwyddorion ystyrlon a gwerthusadwy?* |
| **2. Implementation (Y2)** | **2. Gweithredu (B2)** |
| *If principles have been articulated, to what extend and in what ways are they being adhered to in practice?* | *Os oes egwyddorion wedi'u mynegi, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y cedwir atynt yn ymarferol?* |
| **3. Realisation (Y3)** | **3. Gwireddu (B3)** |
| *If adhered to, to what extent and in what ways are the principles leading to the desired results?* | *Os cedwir atynt, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau a chwenychir?* |
| **Methodological approach** | **Dull methodolegol** |
| **Realist Review and Evaluation (RRE)** | **Adolygiad a Gwerthusiad Realaidd (RRE)** |
| RRE includes creation of programme theory,, Context-Mechanism-Outcome Configurations, identifies casual links across date – through a Realist Review of the literature supported by Realist analysis of other sources (Pawson and Tilley, 1997) | Mae RRE yn cynnwys creu theori rhaglen, Ffurfweddiadau Cyd-destun-Mecanweithiau-Canlyniadau, mae'n canfod cysylltiadau achlysurol ar draws data – trwy gynnal Adolygiad Realaidd o'r llenyddiaeth a dadansoddiad Realaidd o ffynonellau eraill (Pawson a Tilley, 1997) |


Conceptual framework
OVERARCHING FRAMEWORK = Principles-Focused Evaluation (P-FE)
P-FE allows for the synthesis of findings across three key questions and components (Patton, 2018)
Key P-FE questions and components
1. Conceptualisation (Y1)
To what extent have meaningful and evaluable principles been articulated and understood?
2. Implementation (Y2)
If principles have been articulated, to what extent and in what ways are they being adhered to in practice?
3. Realisation (Y3)
If adhered to, to what extent and in what ways are the principles leading to the desired results?
Methodological approach
Realist Review and Evaluation (RRE)
RRE includes creation of programme theory, Context-Mechanism-Outcome Configurations, identifies causal links across data – through a Realist Review of the literature supported by Realist analysis of other sources (Pawson and Tilley, 1997)

## 2. Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol – y cyd-destun a'r cymhlethdodau

### Cyd-destunau sy'n newid

2.1 Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (RIF) (2022-2027) yn fenter bolisi genedlaethol. Fe'i rhoddir ar waith gan Lywodraeth Cymru ac mae'n werth £146 miliwn. Bwriad y fenter yw hyrwyddo agenda'r llywodraeth mewn perthynas ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Fel y nodir yn y Canllawiau:

> 'Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ysgogiad allweddol ar gyfer sbarduno newid a thrawsnewid trwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol, ac wrth wneud hynny bydd yn cynorthwyo'n uniongyrchol i weithredu sawl darn polisi a darn deddfwriaeth allweddol.' (Llywodraeth Cymru, 2022, t.4).

2.2 Fel y nodir ym Mhennod Un, caiff y gwerthusiad hwn ei lywio gan fframwaith Gwerthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion (P-FE) lle rhoddir sylw i gyd-destunau dynamig sy'n berthnasol i weithredu ymyriad sy'n seiliedig ar egwyddorion. Mae'r ffocws hwn yn arbennig o addas ar gyfer gwerthuso'r modd y rhoddir y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) ar waith, o gofio'r uchelgais i alluogi a sbarduno trawsnewid yn y system a'r cymhlethdodau cynhenid sydd ynghlwm wrth wneud hynny.

2.3 Mae ein dogfennau gwerthuso ar gyfer Blwyddyn 1, sef y 'Fframwaith ar gyfer Newid' ac 'Adroddiad Gwerthuso Cysyniadu Blwyddyn 1', yn nodi'r cymhlethdodau o ran gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol integredig ymhlith systemau sy'n wynebu pwysau cynyddol o du cynnydd yn y galw am wasanaethau a chyfyngiadau ariannol (Verity a Llewellyn, 2023; Llewellyn a Verity, 2024). Her ychwnaegol yw'r ffaith bod "integreiddio" ynddo'i hun yn gysyniad a gaiff ei ystyried a'i ddeall mewn gwahanol ffyrdd, lle mae angen cydweithredu a chyfathrebu i bontio gwahaniaethau mewn arferion a diwylliannau gweithio (Llewellyn et al, 2023).

### Pwysau parhaus ar y system

2.4 Mae'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dal i gynyddu, ac amcanestynnir y bydd y tuedd hwn yn parhau. Nodir hyn mewn adroddiadau hollbwysig fel 'Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2023-2024' ac adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef 'Summary of Social Services

Financial Pressures: 2025/6 and onwards'. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn tynnu sylw at y pwysau a welir mewn adrannau achosion brys, wrth bontio o ofal ysbyty i ofal cymunedol, ac o ran mynediad gofal sylfaenol at wasanaethau iechyd meddwl (yn enwedig i blant a phobl ifanc), yn ogystal â gofal deintyddol. Mae bylchau yn y gweithlu'n cyfrannu at y pwysau hwn, ac maent yn destun pryder parhaus. Ochr yn ochr â'r heriau hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn nodi'r datblygiadau arloesol, er enghraifft yn y maes gofal y tu allan i oriau (2024, t.3), gan gyfleu'r gwaith ar gyfer creu ffyrdd newydd o ymateb i'r galw a diwallu'r anghenion.

2.5 Wrth ddadansoddi'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2023, t.2) yn mesur bod lefelau'r gorwariant amcanestynedig ar gyfer 2024/25 yn £106,237 miliwn, gan ddilyn patrwm a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol (gorwariant: 2023/24-£107 miliwn; 2022/23-£93 miliwn). Priodolir hyn i'r cydadwaith rhwng y galw mawr am ofal cymdeithasol plant ac oedolion a 'chymhlethdod yr anghenion', diffyg arian a phrinder gweithlu. Ymhellach, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi na cheir...'unrhyw arwydd o hyn yn gwella', ac mae'n nodi'r costau cyfle sy'n codi o ran darparu gwasanaethau eraill, yn cynnwys atal ac ymyrraeth gynnar, sef rhywbeth sydd wrth wraidd cronfa'r RIF.

**Datblygiadau polisi perthnasol – system gofal cymunedol integredig (ICCS)**

2.6 Ers ysgrifennu adroddiad y 'Fframwaith ar gyfer Newid', bu newidiadau allweddol ym mholisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymestyn a chyflymu agenda integreiddio'r llywodraeth. Yr elfen fwyaf arwyddocaol yn hyn o beth yw cyflwyno cynllun ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS) – a elwir yn 'Glasbrint'. Un ddogfen bolisi hollbwysig yw 'Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Sefyllfa System Gofal Cymunedol Integredig' a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2024 (Llywodraeth Cymru, 2024c) ac a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

2.7 Mae'r datganiad hwn yn ailadrodd 'blociau adeiladu' yr agenda trawsnewid iechyd a gofal ac mae'n disgrifio'r modd y bydd cronfeydd a pholisïau'n cael eu cydweddu ymhellach er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn. Fel yn achos 'Meithrin Gallu drwy

Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach – Datganiad Pellach o Fwriad' (2023)[4], mae'r angen i gyflwyno newidiadau ar frys yn thema a welir drwy gydol y datganiad hwn.

2.8 Mae'r modd y diffinnir ICCS yn y datganiad, fel y gwelir isod, wedi'i seilio ar egwyddorion sy'n llywio'r RIF mewn sawl ffordd; mae'r rhain, yn eu tro, yn deillio o Cymru Iachach, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

> 'Mae'r System Gofal Cymunedol Integredig wedi'i dylunio i helpu pobl i gyflawni 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt, a'i nod yw adeiladu cynnig gofal a chymorth di-dor cydgysylltiedig i bobl a fydd yn eu galluogi i:
>
> • Gyflawni iechyd a llesiant da.
>
> • Atal anghenion rhag dwysáu.
>
> • Byw'n dda gartref, mor annibynnol â phosibl.
>
> • Cael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth cydgysylltiedig yn nes at y cartref.
>
> • Osgoi cael eu derbyn yn ddiangen i'r ysbyty.
>
> • Dychwelyd adref o'r ysbyty yn ddiogel ac yn gyflym os oes angen gofal eilaidd arnynt.'
>
> (Llywodraeth Cymru, 2024, t.3)

2.9 Mae'r 'Glasbrint' ar gyfer ICCS yn rhoi lle canolog i elfennau hollbwysig fframwaith yr RIF ar gyfer esgor ar newid yn y system, h.y. dulliau galluogi, Modelau Gofal a grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth yr RIF (Llywodraeth Cymru, 2024d, t.4), a phrosesau'r RIFo uwchraddio'r wybodaeth a gynhyrchwyd yn lleol ac yn rhanbarthol am arferion da ar gyfer llywio Modelau Gofal cenedlaethol.

2.10 Mae'r Datganiad (Llywodraeth Cymru, 2024c) yn nodi'r gwaith integredig llorweddol sy'n digwydd ledled arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru i ategu'r broses o wireddu'r 'Glasbrint' hwn, ynghyd â'r gwaith o gydweddu tri o gynlluniau cyllido'r llywodraeth ar gyfer mentrau integreiddio, sef: y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso. Yn gryno, mae'r RIF bellach yn rhan o'r rhaglen waith hon gogyfer gofal cymunedol integredig.

---

[4] Mae 'Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach' (2023) yn Ddatganiad gan Lywodraeth Cymru lle disgrifir y bwriadau polisi a'r camau pendant a fydd yn cynorthwyo i gyflymu'r gwaith o ddatblygu system gofal cymunedol integredig yng Nghymru.

2.11 Ymhellach, mae un o gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru, sef ‘Cynllun ar gyfer Gofal Iechyd a Chymdeithasol 2024’, yn ailbwysleisio bod integreiddio yn nodwedd hollbwysig, a chanolbwyntir ar fodelau gofal cymunedol integredig ledled Cymru, yn ogystal â phartneriaethau, ‘i sicrhau mwy o gysondeb wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal er mwyn gwneud y mwyaf o asedau ac adnoddau’. (2024b, t. 7).

**Newidiadau yng nghanllawiau’r RIF**

Cyllid

2.12 Fel y nodir yn y ‘Fframwaith ar gyfer Newid’ (Verity a Llewellyn, 2023), caiff yr RIF ei lywio gan gyfres o egwyddorion, sef: egwyddorion deddfwriaethol, ac egwyddorion polisi a chynllunio rhaglenni Llywodraeth Cymru. Nodir egwyddorion penodol mewn perthynas â strwythur a gweinyddiaeth yr RIF yng Nghanllawiau’r RIF (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae pedair ffrwd gyllido ar wahân yn perthyn i’r RIF, ac mae gan bob un ohonynt amodau penodol sy’n gysylltiedig â chael mynediad at arian a defnyddio arian. Dyma’r pedair ffrwd dan sylw: y Gronfa Reolaidd ar gyfer Seilwaith Rhanbarthol, y Gronfa Genedlaethol wedi’i Chlustnodi, y Gronfa Cyflymu Newid a’r Gronfa Ymgorffori Modelau Cyflawni Cenedlaethol (2022a, t. 27).

2.13 Yng Nghanllawiau gwreiddiol yr RIF, y disgwyl oedd y byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn lleihau’n raddol (‘tapro’) ac y byddai partneriaid rhanbarthol yn darparu rhagor o adnoddau/arian cyfatebol, dros amser, er mwyn esgor ar sefyllfa lle byddai’r partneriaid a Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cyllid yn ôl trefniant 50:50 (2022, t. 31). Fel y nodir yn y ddogfen, ‘Mae adnoddau cyfatebol yn un o egwyddorion allweddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a’u bwriad yw cynorthwyo i ysgogi newid cynaliadwy ar draws ein system iechyd a gofal cymdeithasol.’ (2022, t. 34).

2.14 Y syniad wrth wraidd y ‘tapro’ hwn oedd ceisio ymwreiddio’r gwaith a wneir gan brosiectau integreiddio a ariennir gan yr RIF yng ngweithrediad craidd y rhai a oedd yn cyflawni’r gwaith hwnnw yn y rhanbarth: nod y dylid ei gyflawni erbyn y daw cyllid yr RIF i ben. Fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig ar y cyd ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig, ar ddiwedd 2024, oherwydd y pwysau ariannol a oedd yn wynebu sefydliadau partner, cafwyd gwared ar yr angen i dapro cyllid (Llywodraeth Cymru, 2024d). Fel y nodir yn y Datganiad:

‘Cytunodd Gweinidogion i gael gwared ar elfen dapro’r gronfa yn ei chyfanrwydd. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi parhau i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer y tri Model Gofal Integredig Cenedlaethol a fydd yn cefnogi meithrin gallu cymunedol yn uniongyrchol (cydgysylltu cymunedol, gofal cymhleth yn nes at y cartref ac adref o’r ysbyty), gan ddenu adnoddau craidd ehangach fel cyllid cyfatebol ar gyfer y meysydd blaenoriaeth hyn.’ (Llywodraeth Cymru, 2024d, t. 23).

Adrodd

2.15 Erbyn hyn, mae’r RIF yn defnyddio fframwaith cynhwysfawr ar gyfer adrodd am ganlyniadau, a gaiff ei strwythuro trwy ddefnyddio’r chwe Model Gofal, dangosyddion ar gyfer pob Model Gofal, ac 20 o fesurau perfformiad. Datblygwyd hyn oll yng ngoleuni’r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (gweler Llywodraeth Cymru 2024a).

2.16 Mae rhai newidiadau wedi’u cyflwyno i’r gofynion adrodd mewn rhai rhanbarthau ar sail lefelau sicrwydd a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn arwydd o fwy o aeddfedrwydd ac ymddiriedaeth rhwng Llywodraeth Cymru a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Crynodeb**

2.17 I grynhoi, mae’r agenda integreiddio a bennir mewn dogfennau polisi a deddfwriaeth allweddol, fel ‘Cymru Iachach’, yn dal i fod yn amcan allweddol i Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun y pwysau parhaus a welir ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

2.18 Mae’r tirlun polisi yn dal i fod yn ddeinamig, yn enwedig o ran datblygiadau yn yr ICCS. Hefyd, mae’r ffaith ein bod ar fin symud i ddwy flynedd olaf cyllid yr RIF yn peri i arweinwyr rhanbarthol a phenderfynwyr polisi cenedlaethol ganolbwyntio ar ystyried a thrafod y gronfa a fydd yn olynu’r RIF.

# 3. Gweithredu'n ymarferol – canfyddiadau

### Elfennau a dulliau

3.1 Mae cynllun yr astudiaeth wedi'i lunio ar ffurf gwerthusiad integredig. Mae'n cynnwys nifer o wahanol elfennau gwerthuso/methodolegol, a bydd pob un ohonynt yn cael eu datblygu mewn gwahanol ffyrdd er mwyn cynnig sylfaen dystiolaeth 'sensitif i gyd-destun' y gellir ei defnyddio i ymdrin â'r amcanion ar gyfer yr astudiaeth.

3.2 Mae'r elfennau sydd wedi deillio o Flwyddyn 1 y gwerthusiad wedi'u cyhoeddi erbyn hyn, ac yn y bennod hon cyflwynwn drosolwg o'r gwaith maes a wnaed ym Mlwyddyn 2. I gael rhagor o fanylion am unrhyw un o'r pwyntiau a gyflwynir isod, gweler adroddiad Bebb, Bryer a Grover (2025).

### Dulliau ac ymagwedd

3.3 Cynhaliwyd cyfweliadau unigol gyda chwe arweinydd rhanbarthol a 65 o arweinwyr prosiectau, rheolwyr, cydlynwyr a rhanddeiliaid cysylltiedig. Tynnwyd y cyfranogwyr hyn o blith sampl o 24 prosiect a oedd yn cwmpasu pob un o'r saith rhanbarth a thri o blith y chwe Model Gofal (sef Gartref o'r Ysbyty, Gofal Cymunedol: Atal a Chydgysyltu Cymunedol, a Gofal Seiliedig ar Le: Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref). Caiff y data a ddeilliodd o'r cyfweliadau hyn ei grynhoi yn y ddwy adran nesaf (sef 'Canfyddiadau hollbwysig yn ymwneud â chynllunio a datblygu prosiectau'r RIF' a 'Canfyddiadau hollbwysig yn ymwneud â gweithredu prosiectau'r RIF hyd yn hyn').

3.4 Ymhellach, cynhaliwyd sesiynau trafod gyda thair Cymuned Ymarfer, sef: Gartref o'r Ysbyty, Gofal Cymunedol: Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref, a Chefnogi Teuluoedd a Phlant). Yn dilyn hyn, anfonwyd arolwg dwyieithog (trwy gyfrwng darparwr hwyluso dan gontract Llywodraeth Cymru) at yr holl Gymunedau Ymarfer a oedd ar y rhestr ddosbarthu. Anfonwyd dolen yr arolwg trwy e-bost at gyfanswm o 682[5] o gysylltiadau am gyfnod o chwe wythnos rhwng canol Hydref a diwedd Tachwedd 2024. Cafwyd 51 o ymatebion ar draws y chwe Model Gofal. Caiff y data a ddeilliodd o'r arolwg hwn ei grynhoi yn rhan olaf y bennod hon ('Canfyddiadau hollbwysig yn ymwneud â'r Cymunedau Ymarfer').

---

[5] Mae'n debyg y ceir cryn dipyn o ddyblygu yn y manylion cyswllt unigol ar y rhestrau dosbarthu hyn gan fod enwau nifer o unigolion o Lywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol wedi'u cynnwys ar nifer, neu ar bob un, o'r rhestrau dosbarthu.

**Canfyddiadau hollbwysig yn ymwneud â chynllunio a datblygu prosiectau'r RIF**

3.5 Cafodd rhai o'r prosiectau RIF a samplwyd eu llywio gan asesiad trylwyr o anghenion a chawsant eu siapio gan adborth parhaus gan ddefnyddwyr gwasanaethau, er mwyn mireinio a gwella ymarfer. Ceir cyfle i ymestyn y modd y cynhwysir defnyddwyr gwasanaethau ar draws prosiectau'r RIF, yn enwedig o ran eu gweithgareddau gwerthuso, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ymateb i anghenion defnyddwyr.

3.6 Ychydig iawn o'r prosiectau a samplwyd sydd wedi mabwysiadu'r hyn a ddysgwyd gan brosiectau tebyg. Rhoddodd y prosiectau a samplwyd fwy o bwyslais ar addasu a theilwra'r ddarpariaeth er mwyn bodloni amgylchiadau ac anghenion lleol. Er bod Cymunedau Ymarfer yn elfen allweddol o raglen yr RIF gogyfer rhannu dysgu ledled y sector, mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y prosiectau a samplwyd yn awgrymu y gallai prosiectau ddysgu mwy gan y naill a'r llall, fel y gellir rhannu mewnwelediadau cyflawni, llwyddiannau a heriau.

3.7 Yn unol â'r bwriad, mae'r RIF wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi ystod eang o wasanaethau – o ymyriadau gofal acíwt i fesurau ataliol. Gwelir mwy o debygrwydd rhwng rhai o'r prosiectau a samplwyd – yn enwedig prosiectau sy'n canolbwyntio ar ofal cymunedol canolradd integredig – a gwelir elfennau cyffredin yn eu dulliau cyflawni. Mewn gwrthgyferbyniad, mae prosiectau sy'n cynorthwyo teuluoedd a phobl ifanc yn tueddu i fod yn fwy amrywiol o ran eu cynllun a'u dull. Mae gan y gwahaniaeth hwn oblygiadau sylweddol o ran datblygu Modelau Gofal yn rhaglen yr RIF. Mae'n awgrymu bod sefydlu Modelau Gofal safonedig ar gyfer gofal cymunedol a gofal gartref o'r ysbyty yn dasg symlach na chreu Model Gofal unedig ar gyfer mentrau sy'n cynorthwyo teuluoedd, o gofio eu bod yn fwy amrywiol eu natur.

3.8 Yn achos y mwyafrif o'r prosiectau a samplwyd, fe wnaethant adael y rhaglen cyn iddi ddod i ben; ond ceir tystiolaeth dda bod prosiectau'n esblygu i weithredu mewn modd mwy rhanbarthol ac integredig. Mae'r dadansoddiad o'r prosiectau a gafodd eu cyfweld yn awgrymu y ceir 'sbectrwm' cynnydd ar draws y rhaglen, gan gwmpasu prosiectau presennol, prosiectau sy'n esblygu a phrosiectau sy'n dod i'r amlwg.

3.9 Mae gweithio'n dda mewn partneriaeth, ynghyd â rheoli ar y cyd, yn elfennau hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF. Mae gwaith partneriaeth rhwng

awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau'r trydydd sector yn elfen amlwg, er bod ei effeithiolrwydd yn amrywio, gyda rhai prosiectau'n arddangos cydweithredu da ac eraill yn cael anawsterau i gydlynu. Ymdrechwyd i symleiddio prosiectau'r RIF ar draws rhai rhanbarthau trwy gyfuno mentrau llai er mwyn creu 'prosiectau ambarél' mwy. Er bod hyn wedi gwella strwythurau adrodd, mae'r ffaith bod ymyriadau llai wedi dal gafael ar eu gwahanol ddulliau yn golygu nad yw pethau wedi'u hintegreiddio'n llwyr.

3.10 Mae sefydliadau'r trydydd sector yn chwarae rhan hanfodol o fewn prosiectau'r RIF trwy wella gwasanaethau a mynd i'r afael â bylchau; ond mae eu rôl barhaus yn ddibynnol ar argaeledd cyllid. Yn achos y prosiectau hynny y mae'r trydydd sector yn cyfrannu'n fawr atynt, gwneir defnydd effeithiol o'r cyfraniad hwnnw i fynd i'r afael ag anghenion penodol a bylchau penodol mewn gwasanaethau.

3.11 Mae cyllid yr RIF yn cyfrannu at brosiectau mewn cyfrannau amrywiol – o ariannu rolau allweddol yn llwyr mewn mentrau bach i ategu swyddi penodol mewn prosiectau amlelfen, mwy. Mae'r rhaglen wedi bod yn gyfrwng i wella capasiti timau staff a phrosiectau sy'n gweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig y rhai sy'n targedu plant a phobl ifanc, a mentrau'r trydydd sector. Fodd bynnag, mae natur y cyllid yn golygu mai gwaith anodd iawn yw pennu effeithiau'r RIF fel cronfa arwahanol pan fo'n gyfrifol am gyfran o'r aelodau staff sy'n gysylltiedig â chyflawni gwasanaeth ehangach.

3.12 Mae'r hyblygrwydd sy'n perthyn i gyllid yr RIF, ynghyd â'r adnoddau a'r seilwaith rhanbarthol a roddwyd ar waith, wedi galluogi prosiectau i arloesi ac addasu i anghenion newidiol. Canmolwyd hyblygrwydd y rhaglen gan y prosiectau a ariannwyd, er bod ansicrwydd ynglŷn â'u cyllid hirdymor yn rhoi eu cynaliadwyedd yn y fantol. Yn achos nifer o'r prosiectau a samplwyd, mae tynnu cyllid yr RIF yn ôl yn bygwth eu parhad, gan fod sicrhau cyllid prif ffrwd yn dal i fod yn anodd iawn. Ar lefel ranbarthol, mae heriau'n parhau i wynebu arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran sicrhau cydbwysedd rhwng elfennau eu rôl sy'n mynnu y dylent gyfuno goruchwyliaeth strategol dros y rhaglen a chymorth gweithredol ar gyfer prosiectau – mae'r holl waith sydd ynghlwm wrth hyn yn peri iddynt deimlo bod cyfyngiadau'n cael eu gosod ar eu capasiti.

3.13 Mae gwaith adrodd yr RIF wedi gwella o ganlyniad i brosesau symlach, mwy o ymddiriedaeth rhwng y rhanbarthau a Llywodraeth Cymru, a lefelau craffu mwy cymesur; ond erys nifer o heriau ar lefel prosiectau a rhanbarthau. Mae esblygiad

cadarnhaol prosesau adrodd yr RIF wedi arwain at wella effeithlonrwydd a lleihau'r baich gweinyddol a roddir ar ysgwyddau prosiectau. Mae prosiectau'n gwerthfawrogi'r cydbwysedd rhwng y data meintiol a'r naratifau ansoddol y mae'n ofynnol iddynt eu darparu, yn cynnwys y dull 'stori newid' sylfaenol sy'n perthyn i'r broses adrodd. Awgryma'r adborth fod angen cydweddu metrigau adrodd a nodau prosiectau yn well, yn enwedig ar gyfer prosiectau ataliol a chymunedol. Hefyd, mae angen mynd i'r afael â'r gofynion anghydweddol sy'n gysylltiedig â phrosiectau sy'n gorfod bodloni gofynion adrodd eraill yn ychwanegol at y rhai a bennir gan yr RIF. Ymhellach, ceir cyfle i symleiddio mwy ar y broses adrodd a lleihau'r baich adrodd a roddir ar ysgwyddau prosiectau a gaiff symiau cymharol fach o gyllid yr RIF, er gwaethaf y ffaith eu bod yn gwneud cyfraniadau pwysig nad oes angen adrodd amdanynt i Lywodraeth Cymru.

**Canfyddiadau allweddol o ran gweithredu prosiectau'r RIF hyd yma**

3.14 Mae'r RIF yn galluogi prosiectau i ddarparu ymyrraeth gynharach, yn enwedig ymatebion sy'n anelu at gynorthwyo pobl yn eu cartrefi eu hunain er mwyn lleihau'r galw ar y gwasanaethau brys a lleihau derbyniadau i'r ysbyty. Hefyd, dangosir rhai dulliau arloesol o ran darparu gwasanaethau sy'n anelu at gynorthwyo teuluoedd – sef dulliau hyblyg sy'n ymatebol i anghenion defnyddwyr gwasanaethau.

3.15 Mae prosiectau'n ymwybodol iawn bod angen integreiddio gwasanaethau a chysylltu timau iechyd a gofal cymdeithasol yn agosach pan fo modd. Er y ceir rhai enghreifftiau o brosiectau sydd wedi llwyddo i gyflawni hyn – gan bontio'r bylchau rhwng gofal acíwt a gofal ataliol – cydnabyddir y ceir 'sbectrwm' integreiddio' (gwasanaethau cydgysylltiedig hyd at wasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n llwyr) neu gamau tuag at integreiddio y gall gwasanaethau eu dilyn (Rhan 9 o'r Cod Ymarfer, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).*

3.16 Mae'r gwaith maes wedi tynnu sylw at yr amser a gymerir i ymwreiddio'r integreiddio a'r newid ymddygiad traws-system y mae'r RIF yn anelu at ei hwyluso a'i gyflawni yn y pen draw. Yn y mwyafrif o achosion, mae prosiectau a ariennir gan yr RIF yn gallu cyflawni integreiddio y mae modd ei leoli ar y 'sbectrwm integreiddio', er enghraifft trwy gydleoli timau, un rheolwr prosiect, neu well mynediad ar y cyd at ddata cleifion. Fodd bynnag, gwaith anodd yw goresgyn y seilos traddodiadol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

3.17 Mae sicrhau gweithlu cryf, cadarn ac integredig yn parhau i fod yn hollbwysig o ran cyflawni canlyniadau arfaethedig yr RIF yn effeithiol, a gwelir gwelliant nodedig yn y

maes hwn o gymharu â'r problemau recriwtio a chadw niferus a welwyd dan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Soniodd y mwyafrif o'r prosiectau am fwy o sefydlogrwydd o ran recriwtio a chadw staff y tro hwn, sef rhywbeth a briodolir i'r sicrwydd ariannol tymor hwy y bu modd ei roi i swyddi o fewn cyfnod pum mlynedd yr RIF.

3.18 Cafwyd sawl enghraifft o brosiectau'n cyflwyno strategaethau arloesol i wella'r sefyllfa, yn cynnwys symleiddio amodau a thelerau ar draws sefydliadau, uwchsgilio staff presennol neu rolau eraill mewn timau, darparu gwasanaethau trwy gontractau allanol, gwella cyfleoedd hyfforddi, a datblygu diwylliant cadarnhaol o fewn y tîm er mwyn sicrhau ei fod yn ddeniadol i eraill sy'n dymuno ymuno ag ef. Er y llwyddwyd i ddefnyddio dulliau arloesol i sicrhau bod rolau'n ddeniadol yn nifer o'r enghreifftiau hyn, mae llenwi bylchau mewn swyddi arbenigol hollbwysig, a phontio tuag at fodel saith diwrnod, wedi bod yn gryn her.

3.19 Caiff heriau gweithredol a strategol eu dwysáu yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle ceir pwysau mawr ar adnoddau. Mae staff prosiectau yn nodi'n rheolaidd eu bod yn gweithio dan bwysau enfawr, gan ei gwneud yn anodd iddynt gynllunio'n strategol ar gyfer y tymor hwy pan fônt yn ymateb yn gyson i alwadau pwysig, byrdymor ar eu hamser. Mae rhai o'r problemau recriwtio'n adlewyrchu'r diffygion ehangach a welir yn y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd.

3.20 Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau hefyd o sefyllfaoedd pan gaiff arian yr RIF ei ddyrannu trwy gyfrwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu'n uniongyrchol gan y bwrdd iechyd ar ffurf dyraniad 'o un flwyddyn i'r llall', gan lesteirio gallu prosiectau i gynllunio'n effeithiol, cadw staff a chyflawni gwaith mewn modd amserol. Hefyd, mae prosesau recriwtio araf, neu'r rheidrwydd i lywio trwy strwythurau llywodraethu cymhleth er mwyn cytuno ar ffyrdd o newid neu addasu strwythurau cyflawni, yn parhau i beri problemau, gan arwain at oedi sydd wedi effeithio'n fawr ar gyflawni rhai prosiectau.

3.21 Yn ôl pob tebyg, bydd ansicrwydd ynglŷn â dyfodol cyllid yr RIF y tu hwnt i'r ymrwymiad pum mlynedd yn creu mwy o fylchau mewn swyddi hollbwysig ac yn cynyddu problemau i brosiectau o ran recriwtio a chadw staff. Yn yr un modd, mae'r 'cytundebau cynnig cyflog' diweddar ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â'r effaith a gaiff cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar awdurdodau lleol a'r trydydd sector, yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol yng nghostau'r gweithlu, uwchlaw amcangyfrifon gwreiddiol y gyllideb. Yn sgil hyn, rhagwelir y bydd yna fwy

o bwysau acíwt ar gyllid prosiectau o'r flwyddyn nesaf ymlaen, a gallai hyn greu tensiynau rhwng partneriaid o gofio y bydd yna fwy o gystadlu am adnoddau cyfyngedig.

3.22 Llwyddodd y gwaith maes i bennu enghreifftiau o brosiectau sy'n defnyddio technoleg arloesol ac atebion digidol i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon a hygyrch i gleifion, yn enwedig o ran cynorthwyo unigolion ag anableddau dysgu neu bobl sydd angen rheoli cyflyrau cronig. Llwyddodd prosiectau eraill i gyflwyno gwelliannau gwych i systemau CRM neu brosesau gogyfer rhannu data cleifion. Fodd bynnag, 'pocedi' o arferion da yw'r rhain, a nododd y mwyafrif o'r prosiectau eraill na chaiff cyfleoedd posibl i ddefnyddio datblygiadau digidol neu dechnolegol mo'u gwireddu'n llwyr ar hyn o bryd, yn rhannol oherwydd y seilwaith TG presennol.

3.23 Caiff y sector gwerth cymdeithasol ei gydnabod a'i integreiddio'n anghyson ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er bod rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu rhagori ar eu targedau mewn perthynas â gwerth cymdeithasol, mae eraill yn dangos bod sawl cyfle wedi'i golli o ran arloesi a chydweithio dyfnach. O gofio'r pwysau presennol ar adnoddau, ymddengys fod gwasanaethau statudol (yn naturiol ddigon) yn canolbwyntio mwyfwy ar ddefnyddio'r RIF i ategu gwasanaethau craidd, a bod y trydydd sector yn cael ei sgubo i'r naill ochr braidd oherwydd hyn.

3.24 Gwybodaeth gyfyngedig yn unig o'r Modelau Gofal a ddangoswyd gan rai prosiectau; yn yr achosion hynny, ymddengys nad yw Modelau Gofal 'cenedlaethol' yn golygu llawer i staff a ariennir gan yr RIF ac sy'n cyflawni gwasanaethau 'ar lawr gwlad', ac ymddengys nad ydynt yn berthnasol iawn. Ymhellach, dywedodd staff prosiectau nad ydynt o'r farn bod eu prosiectau'n cydweddu â'r Model Gofal yr adroddant iddo, ac nad ydynt yn credu bod eu gweithgareddau'n cyfrannu ar draws mwy nag un maes, neu Fodelau Gofal eraill.

3.25 Roedd prosiectau'n fwy tebygol o ganolbwyntio ar eu cysylltiad strategol ag anghenion a blaenoriaethau lleol neu ranbarthol, a soniwyd am ddulliau seiliedig ar y boblogaeth (e.e. Dechrau Da, Heneiddio'n Dda) neu'r modd roeddynt yn ategu sbardunau polisi a nodau strategol cenedlaethol eraill. Soniodd nifer o staff prosiectau am ddiffyg cysylltiad amlwg rhwng y tirlun polisi cymhleth a'r realiti o ran cyflawni ar lawr gwlad, a mynegwyd dymuniad i symleiddio pethau yn y dyfodol.

3.26 Er bod prosiectau'n cydnabod cyfleoedd i ehangu yn eu rhanbarth, o un ardal clwstwr neu ardal awdurdod lleol i un arall, yn aml dim ond pan fo adnoddau ar gael, neu pan fo'r cyd-destun lleol yn addas, y câi'r cyfleoedd hynny eu gwireddu.

Prin oedd yr enghreifftiau gwirioneddol o rannu ac ailadrodd dysgu ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Canfyddiadau allweddol o ran cymunedau ymarfer**

3.27 Mae’n bwysig nodi bod yr adborth isod wedi’i gyflwyno gan bobl sy’n ymhél â Chymunedau Ymarfer. Fel y nodir ym Mharagraff 3.6, mae yna gyfle i’r Cymunedau Ymarfer esgor i raddau mwy ar ddysgu traws-brosiect, fel y gellir rhannu mewnwelediadau cyflawni, llwyddiannau a heriau, ac roedd gwybodaeth a phrofiad o’r Cymunedau Ymarfer yn eithaf cyfyngedig ar draws y 65 cyfwelai.

3.28 Mae’r aelodau’n mynychu sesiynau’r Cymunedau Ymarfer yn weddol reolaidd ac maent yn cyfrannu’n effeithiol atynt; ond mae pwysau croes o ran llwyth gwaith, yn ogystal â diffyg ymwybyddiaeth, yn rhwystro ymgysylltu. Nid oes modd i’r aelodau fynychu’r cyfarfodydd bob amser oherwydd ymrwymiadau eraill yn eu hamserlenni, absenoldeb staff, patrymau gweithio neu wyliau blynyddol, a/neu lwyth gwaith rhy drwm. Ymhellach, dywedodd rhai aelodau ac arweinwyr prosiectau fod gwybodaeth am Gymunedau Ymarfer, yn eu tyb nhw, yn cael ei dosbarthu ar lafar gwlad neu trwy gyfrwng cysylltiadau presennol, yn hytrach na thrwy ddull ffurfiol a fyddai’n cyrraedd yr holl brosiectau a ariennir gan yr RIF.

3.29 Nid yw’n gwbl glir pwy yw aelodau targed y Cymunedau Ymarfer, a mynegwyd amheuon ynghylch graddfa briodol y cyfarfodydd a’r amrediad o sectorau a gynrychiolir. Nodwyd hefyd bod anghysondeb o ran y rhai sy’n mynychu pob un o gyfarfodydd y Cymunedau Ymarfer yn rhwystro’r gallu i weithio’n effeithiol ar lefel genedlaethol. Roedd yr aelodau’n awyddus i sicrhau bod amrediad o sectorau a phrofiadau yn parhau i gael eu cynrychioli o fewn Cymunedau Ymarfer.

3.30 Yn gyffredinol, ystyrir bod y Cymunedau Ymarfer yn cael eu trefnu’n dda neu’n rhagorol, ond y gellid gwella pethau trwy bennu’r amserlenni ynghynt, trwy leihau hyd y sesiynau a thrwy gyflwyno hyblygrwydd i strwythur y sesiynau. Ar y cyfan, mynegodd yr aelodau farn gadarnhaol ynglŷn â sawl elfen yn ymwneud â’r modd y trefnir y Cymunedau Ymarfer, yn cynnwys ansawdd y siaradwyr, y modd y caiff y sesiynau eu hwyluso, defnyddioldeb a pherthnasedd y pynciau a drafodir, a fformat y sesiynau. Ochr yn ochr â hyn, argymhellwyd y dylid cyflwyno amrywiaeth a hyblygrwydd o ran y modd y caiff y sesiynau eu strwythuro (fel cyfarfodydd wyneb yn wyneb blynyddol) a nodwyd bod angen storfa wybodaeth ganolog.

3.31 Mae Cymunedau Ymarfer yn galluogi'r aelodau i ddysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau polisi cenedlaethol a rhanbarthol, ynghyd â rhannu arfer da a'r hyn a ddysgwyd. Caiff y crynodebau a gyflwynir yn ystod sesiynau'r Cymunedau Ymarfer eu gwerthfawrogi ar sail eu heglurder a'u heffeithlonrwydd, gan olygu nad oes yn rhaid i'r aelodau ddarllen amryfal ffynonellau gwybodaeth. Nododd y cyfranogwyr bod y trafodaethau, yn aml, yn tynnu sylw at ddulliau arloesol sydd ar waith mewn rhanbarthau eraill, gan eu hysbrydoli i addasu a gweithredu dulliau tebyg.

3.32 Ystyrir bod Cymunedau Ymarfer yn helpu i ddatrys problemau, yn ategu arloesi ac yn helpu i ddatblygu naratif cyffredin. Soniodd yr aelodau am y modd y mae'r fforymau hyn yn eu galluogi i archwilio heriau ar y cyd, gan arwain at atebion creadigol – sef atebion na fyddent, efallai, wedi dod i'r amlwg mewn gwagle. Tynnodd yr aelodau sylw at werth y fforymau hyn o ran meithrin ymdeimlad o gydlyniant ar draws rhanbarthau a sectorau.

3.33 Mae'r aelodau wedi gweithredu peth o'r hyn a ddysgwyd gan y Cymunedau Ymarfer, ond ni chaiff y trafodaethau a gynhelir o fewn Cymunedau Ymarfer eu troi'n gamau gweithredu yn gyson; lledaenu gwybodaeth a rhwydweithio yw'r prif ganlyniadau hyd yma. Yn ôl rhai aelodau, mae'r hyn a ddysgwyd yn ystod sesiynau'r Cymunedau Ymarfer wedi eu harwain i herio ac adolygu eu syniadaeth a'u cynlluniau strategol, neu eu harwain i newid y modd y cyflawnant eu prosiectau; ond soniwyd yn fwy mynych am ledaenu gwybodaeth i gydweithwyr a phartneriaid.

3.34 Nododd aelodau'r Cymunedau Ymarfer (yn enwedig rhai sy'n gweithio ar lefel strategol yn y rhanbarth) nad yw'r trafodaethau a gynhelir oddi mewn i'r Cymunedau Ymarfer yn troi'n weithredu uniongyrchol yn gyson. Roeddynt o'r farn bod Cymunedau Ymarfer yn rhoi blaenoriaeth i arddangos arferion da (sef rhywbeth gwerthfawr), ond na cheir rhyw lawer o dystiolaeth bod yr arferion hynny'n cael eu cyflwyno mewn mannau eraill, a nodwyd na cheir canllawiau cenedlaethol ar y modd y dylid cyflwyno'r fath arfer da.

3.35 Mae Cymunedau Ymarfer wedi esblygu ers iddynt gael eu rhoi ar waith, ond ni wyddys yn iawn sut y mae trafodaethau Cymunedau Ymarfer yn llywio Modelau Gofal cenedlaethol. Ni ddeellir yn iawn i ba raddau y bwriedir i Gymunedau Ymarfer gyfrannu at Fodelau Gofal cenedlaethol. Er y cytunir yn gyffredinol mai bwriad Cymunedau Ymarfer yw rhannu dysgu ac arfer da (ac er y cytunir eu bod yn fforymau effeithiol ar gyfer gwneud hyn), ni cheir rhyw lawer o gonsensws ynglŷn â chyfrifoldebau Cymunedau Ymarfer y tu hwnt i hyn.

3.36 Yn gyffredinol, mae'r rhai sy'n gweithio ar lefel strategol o fewn rhanbarthau o'r farn nad oes rhyw lawer o gysylltiad i'w gael rhwng y Cymunedau Ymarfer a'r gwaith a wneir ar lefel ranbarthol a lleol, ac na cheir dull ar gyfer mynd ati'n ffurfiol i werthuso a chadarnhau'r mewnwelediadau hyn i greu fframwaith cenedlaethol cydlynol.

3.37 Mae Cymunedau Ymarfer yn lleihau 'ynysigrwydd' ar gyfer y rhai sy'n ymhél â'r RIF ledled Cymru. Maent yn cynnig ffordd o gysylltu gydag eraill er mwyn rhannu gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad, gan osgoi dyblygu ymdrechion. Ond mae angen sicrhau bod yr holl Gymunedau Ymarfer yn cydweddu'n well â'i gilydd. Ystyrir bod y Cymunedau Ymarfer yn ffordd strwythuredig o rannu strategaethau llwyddiannus ac yn ffordd o osgoi 'ailddyfeisio'r olwyn'. Er nad yw hyn yn gyfystyr â Model Gofal cenedlaethol, mae aelodau Cymunedau Ymarfer o'r farn bod y dull hwn o gydweddu modelau darparu gwasanaethau yn gam cadarnhaol ymlaen. Un gwendid a amlygwyd gan aelodau Cymunedau Ymarfer oedd y diffyg ymgysylltu ffurfiol rhwng yr holl Gymunedau Ymarfer, yn ogystal â diffyg ymgysylltu ffurfiol gyda fforymau rhanbarthol a chenedlaethol eraill sy'n bodoli eisoes.

## 4. Goblygiadau gweithredu'r RIF – cydbwyso'r tensiynau

### Disgrifio'r egwyddorion sy'n sail i'r RIF – tuag at ddeuadau cysyniadol

4.1 Fel y nodir yn yr Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024) a'r Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023), caiff yr RIF ei lywio gan gyfres o egwyddorion, sef: egwyddorion deddfwriaethol; egwyddorion polisi a chynllunio rhaglenni Llywodraeth Cymru; ac egwyddorion penodol mewn perthynas â strwythur a gweinyddiaeth yr RIF a nodir yng Nghanllawiau'r RIF (Llywodraeth Cymru, 2022).

4.2 O ran egwyddorion deddfwriaethol, mae'r RIF yn defnyddio egwyddorion a nodir yn neddfwriaethau hollbwysig Llywodraeth Cymru a'u Codau Ymarfer cysylltiedig. Fel offeryn polisi cyhoeddus, mae'r RIF yn dilyn 'ysbryd' deddfwriaeth allweddol, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ymhellach, mae egwyddorion sy'n ymwneud â defnyddio tystiolaeth a chyfnewid gwybodaeth ymhlyg yn y gofynion sy'n berthnasol i brosesau'r Cymunedau Ymarfer, gan eu bod yn ategu'r arfer o ddatblygu 'Modelau Gofal 'cenedlaethol' ar y cyd.

4.3 Fel y nodir yn yr Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024), mae Canllawiau'r RIF (Llywodraeth Cymru, 2022) yn pennu'r hyn a elwir yn y fan hon yn 'egwyddorion penodol mewn perthynas â strwythur a gweinyddiaeth yr RIF', sy'n nodi'r modd y dylid rhoi'r gronfa ar waith. Rhestrir y rhain yn Nhabl 4.1 (drosodd), dan naw pennawd.

4.4 Gan fod ein hadroddiadau blaenorol[6] wedi nodi nifer o'r egwyddorion hollbwysig sydd wedi cyfrannu at gysyniadu a datblygu'r RIF, a chan feddwl am y modd y mae P-FE yn ceisio cyflwyno naratif esboniadol, aethom ati yn yr Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024) i gyfuno'r wybodaeth a gasglwyd, gan gydnabod pwysigrwydd y tensiynau allweddol a oedd wrth wraidd ein data.

4.5 Bu modd inni bennu nifer o faterion a chysyniadau ar ffurf 'parau' a oedd, yn aml, yn cystadlu gyda'i gilydd mewn rhyw ffordd, fel y nodir yn ein tystiolaeth. Dyma'r 'deuadau cysyniadol', ac roedd pob un ohonynt wedi'u hymwreiddio yn y naratifau a gasglwyd hyd yr adeg honno.

[6] Gweler Llewellyn a Verity (2024), Verity a Llewellyn (2023), Tetlow et al. (2024), Wallace a Wallace (2024), a Bryer a Bebb (2024).

**Tabl 4.1: Y Gronfa integreiddio rhanbarthol – egwyddorion strwythurol a gweinyddol**

(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2022)

**Amodau cyllido**

- Adnoddau/arian cyfatebol gan bartneriaid.
- 'Cyfradd ymyrraeth o 50/50 gan Lywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol erbyn diwedd y gronfa pum mlynedd' (Llywodraeth Cymru, 2022).
- Cronfeydd cyfun.
- Defnyddio cyfleoedd i gydweddu adnoddau cyfalaf a refeniw.
- Buddsoddi o leiaf 20% o'r RIF mewn gwerth cymdeithasol yn 2022/23.

**Grwpiau poblogaeth**

- Cynorthwyo pump o grwpiau poblogaeth.

**Defnyddio dulliau galluogi**

- Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r pum dull galluogi, sef: cynllunio a chomisiynu integredig; technoleg ac atebion digidol; hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol; hybiau cymunedol integredig; a datblygu ac integreiddio'r gweithlu.

**Parhad o ran integreiddio**

- Adeiladu ar waith yr ICF a datblygiadau'r TF.

**Cydweithrediad a phartneriaethau**

- Adeiladu tystiolaeth gydweithredol.
- Gweithio gyda'r Hybiau Cydgysylltu Arloesedd Rhanbarthol.
- Datblygu partneriaethau ar draws seilwaith ehangach.

**Mesur**

- Mesur yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.

**Cysylltu ar draws rhaglenni**

- Ategu ymrwymiadau a rhaglenni gwaith eraill y llywodraeth, a chreu cysylltiadau gyda nhw.
- Cydweddu â Rhaglenni Datblygu Clystyrau Carlam.
- Cynigion ar gyfer y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol.

**Dilyn deddfwriaethau**

- Yn ychwanegol at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2024 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, dilyn gofynion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.


**Cynaliadwyedd**

- Datblygu, gweithredu a chyffredinoli Modelau Gofal cenedlaethol.
- Cronfeydd cyfun ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd integreiddio.

4.6 Mae'r deuadau'n ffordd o 'wneud synnwyr' o gymhlethdodau'r RIF a chyfleu'r cydadwaith rhwng yr egwyddorion, y gwerthoedd, y cysyniadau a'r lluniadau oddi mewn i'r RIF (fel y nodir yn Nhabl 4.1). Mae'r deuadau hyn yn cyfateb i'r hyn y byddai Patton yn ei alw yn 'wrthrychau'r gwerthusiad' – y pethau oddi mewn i raglenni gwaith yr RIF a'r system y gallwn eu harchwilio wrth i'r astudiaeth fynd yn ei blaen (Patton, 2018).

4.7 Mae chwech o ddeuadau, neu chwe 'phâr' o gysyniadau, wedi'u hymwreiddio oddi mewn i'r RIF, ac mae gan bob un ohonynt oblygiadau o ran gweithredu a chyflawni'r Gronfa. Pennwyd y rhain am y tro cyntaf yn yr Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024), a chânt eu cynrychioli yma yn Ffigur 4.1.


**Ffigur 4.1: Naratifau a ymwreiddiwyd – deuadau cysyniadol oddi mewn i'r RIF**




4.8 Mae'r cysyniadau ym mhob pen y chwe saeth ddeuben yn bodoli ar gontinwwm, ac mae tensiwn yn bodoli rhyngddynt. Mae'r modd y cynrychiolir y deuadau yn rhagdybio bod y sefyllfa 'ddelfrydol' dybiannol ar gyfer pob un yn cyfateb i sefyllfa lle ceid cydbwysedd rhwng y cysyniadau – mewn sefyllfa o'r fath, ceid tensiwn perffaith rhyngddynt, a byddai'r 'ffwlcrwm' tystiolaethol y gallem ei fesur (gweler y trionglau coch yn y diagram isod) yn gorwedd yng nghanol pob continwwm. Yn Ffigur 4.2 (drosodd), ceir cynrychiolaeth dybiannol o'r cydbwysedd hwn, gan ddangos bod y deuadau hyn yn bodoli mewn amgylchedd dynamig sy'n newid yn gyflym, sef amgylchedd nad yw'n aros yn llonydd.

4.9 Gan ddilyn ein dull P-FE, diben y bennod hon felly yw asesu i ba raddau y mae'r cysyniadau hyn yn cydbwyso gyda'r naill a'r llall i greu effaith gadarnhaol, neu i ba raddau y maent yn anghytbwys ac yn ffafrio un cysyniad ar draul cysyniad arall.

**Ffigur 4.2: Ffurfiau tybiannol o'r 'cydbwysedd' ar draws deuadau cysyniadol yr RIF**




**Deall y cydbwysedd a'r tensiynau yn y deuadau cysyniadol**

4.10 Er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw, defnyddiwn yn gyntaf y dystiolaeth ategol a gyflwynwyd gan Bebb, Bryer a Grover (2025) (a grynhoir ym Mhennod 3). Ymhellach, ac yn dilyn yr ymrwymiad i gyflwyno safbwynt 'Gwerthusiad Realaidd' yn yr astudiaeth werthuso mewn perthynas â'r data a gasglwyd (Pawson a Tilley, 1997; Jagosh, 2019), cyflwynwn isod gyfres o Ffurfweddiadau Cyd-destun-Mecanweithiau-Canlyniadau (CMOCs) sydd wedi deillio o ddadansoddiad ychwanegol o'r data a grynhoir ym Mhennod 3.

4.11 Mewn Gwerthusiad Realaidd, yn y bôn mae CMOCs yn cyfateb i ddatganiadau sy'n disgrifio'r modd y mae Cyd-destun penodol (yr amgylchedd neu'r amgylchiadau lle rhoddir ymyriad ar waith) yn ysgogi Mecanweithiau arbennig (y broses neu'r camau sylfaenol a gaiff eu hysgogi gan yr ymyriad o fewn cyd-destun penodol) sy'n arwain at Ganlyniad (y canlyniad neu'r newid arfaethedig a welir). Yn y bôn, mae CMOCs yn ffordd o esbonio cydberthnasau achlysurol oddi mewn i setiau data – 'y pethau sy'n gweithio, i bwy, ac ym mha amgylchiadau' oddi mewn i ymyriadau neu raglenni, gan ddwyn casgliadau ehangach ohonynt wedyn.

4.12 Yn Nhabl 4.2 (drosodd), cyflwynwn y chwe deuad, disgrifiadau ohonynt a'r CMOCs cychwynnol sy'n berthnasol iddynt. Yn yr is-adrannau dilynol, ystyriwn bob

un o’r deuadau a’r CMOCs cychwynnol sy’n berthnasol iddynt, a chyflwynwn naratif yn ymwneud ag asesu’r cydbwysedd rhwng y cysyniadau. Cyflwynir pob CMOC mewn modd a fydd yn pennu’r elfennau C [Cyd-destun/Context], M [Mecanweithiau/Mechanisms] ac O [Canlyniadau/Outcome]. Dylid eu deall yn unol â’r ‘hafaliad’ Realaidd C + M = O.

**Tabl 4.2: Ffurfweddiadau Cychwynnol Cyd-destun[C]-Mecanweithiau[M]-Canlyniadau[O] yn ymwneud â'r deuadau cysyniadol**

**Deuad:** Cydweddiad | Dyhead

**Disgrifiad:**

Mae a wnelo'r deuad hwn â natur Cronfa y bwriedir iddi gydweddu ag amcanion polisi / hwyluso i weithredu amcanion polisi, ond sydd ag uchelgeisiau uwch o lawer na hyn, o gofio'r bwriad penodol i gyflawni'r addewid o ran darparu gwasanaethau di-dor. Yn aml, mae'r cysyniadau hyn yn gweithio'n groes i'w gilydd yn y modd y mae pobl yn disgrifio'r angen i gyflawni nodau penodol y Gronfa, yn ogystal â bod yn rhan o drawsnewidiad 'system gyfan' a 'sector cyfan'.

**CMOC cychwynnol sy'n dangos tystiolaeth o'r deuad:**

Fe wnaeth argaeledd yr RIF [C] arwain at ddatblygu ymhellach gynllun 'Rhyddhau i Adfer yna Asesu' (D2RA) [M], sydd wedi esgor ar ddull cwbl integredig, a gwasanaeth saith diwrnod, gan symud oddi wrth y gwasanaeth darniog a gynigiwyd o'r blaen [O].

Pan geir diffyg cysylltiad rhwng prosiectau/modelau llwyddiannus ar y naill law ac 'uwchraddio' ar y llaw arall (h.y. y gallu i lywio a dylanwadu, nas rhoddir ar waith) [C], bydd hyn yn arwain at rwystredigaeth ymhlith arweinwyr prosiectau ar sail diffyg dylanwad ehangach [M], gan beri iddynt gredu na fydd modd iddynt ddylanwadu ar uwchraddio prosiectau na phenderfyniadau Llywodraeth Cymru [O].

**Deuad:** Rheolaeth | Cydweithrediad

**Disgrifiad:**

O ran y pâr hwn o syniadau, ceir cysylltiad agos iawn â'r ddeinameg pŵer sy'n rhan gynhenid o'r RIF, a'r graddau y mae rhannu pŵer (trwy gydlunio, cydgynhyrchu a chydweithredu) yn newid dros amser. Ni awgrymir yma bod y deuad hwn ar waith rhwng partneriaid cenedlaethol a rhanbarthol yn unig; cydnabyddir ei fod ar waith hefyd o fewn, a rhwng, rhanbarthau a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw.

**CMOC cychwynnol sy'n dangos tystiolaeth o'r deuad:**

Os caiff cyllideb gymunedol ei dyrannu i hyrwyddwyr cymunedol (arweinwyr lleol) ar gyfer prosiectau a gydgynhyrchir [C], bydd hyn yn sbarduno penderfyniadau ar y cyd o fewn y gymuned ynglŷn â'r modd y dylid gwario'r arian [M], gan arwain at rymuso'r gymuned a meithrin cydberthnasau ac ymddiriedaeth [O].

**Deuad:** Ffyddlondeb | Hyblygrwydd

**Disgrifiad:**

O ran naratifau'r RIF, ceir tensiynau amlwg yn ymwneud â ffyddlondeb i'r canllawiau a'r egwyddorion cynllunio sydd wrth wraidd y Gronfa ar y naill law (yn enwedig mewn perthynas â Modelau Gofal), a dymuniad y rhai sy'n ceisio gweithredu'r Gronfa'n ymarferol i gael mwy o hyblygrwydd ar y llaw arall, boed yr hyblygrwydd hwnnw'n ymwneud â chasglu data, adrodd, neu drefniadau eraill.

**CMOC cychwynnol sy'n dangos tystiolaeth o'r deuad:**

Os yw prosiectau'n ceisio mesur effeithiau (monitro a gwerthuso) ar gyfer cyllidwyr ac anghenion lleol fel ei gilydd [C], mae hyn yn sbarduno gwrthdaro, rhwystredigaeth, ac ofn o ran bod yn 'llais unig', rhwng dulliau lleol a dulliau RIF Llywodraeth Cymru [M], gan arwain at dderbyn bod angen y ddau ddull h.y. dulliau meintiol (RBS Llywodraeth Cymru) ac ansoddol (arloesol o dro i dro) [O].

Mae rhai prosiectau'n cael anhawster i gael 'data pendant' [C], a phan fydd partneriaid yn gwneud cais am y data hwnnw [M], caiff data o ansawdd amheus ei rannu, heb iddo allu dangos yn llwyr sut y mae prosiectau'n cyflawni canlyniadau [O].

**Deuad:** Atebolrwydd | Ymreolaeth

**Disgrifiad:**

Yn yr un modd â'r deuad blaenorol, ceir tensiynau ynghylch y cydbwysedd iawn rhwng dull cymesur o ymdrin ag atebolrwydd, llywodraethu a gwario arian cyhoeddus, ochr yn ochr â chefnogi a ffafrio ymdeimlad mwy o ymreolaeth. Unwaith eto, mae'r tensiynau hyn yn gweithredu ar sawl lefel, a rhwng amryfal bartneriaid – o'r cenedlaethol i'r rhanbarthol, o'r rhanbarthol i'r lleol, ac yn ôl drachefn.

**CMOC cychwynnol sy'n dangos tystiolaeth o'r deuad:**

Gwelwyd bod dymuniad i ymwreiddio syniadau mewn modd dwfn, ystyrlon a chynaliadwy [C] wedi arwain at gydnabod bod cyllid yn cael ei daenu'n rhy denau, a bod angen gwneud penderfyniadau anodd i gadarnhau a lledaenu dysgu lleol [M] – sef rhywbeth a arweiniodd at benderfynu lleihau nifer y prosiectau a ariennir [O].

Trwy ddefnyddio amryfal ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu ymyriad gweithredol [C], bu modd datblygu a defnyddio gweithdrefnau gweithredu safonol rhwng timau [M], gan arwain at gyflymu penderfyniadau ar draws y tîm amlbroffesiwn [O].

**Deuad:** Perchnogaeth | Partneriaeth

**Disgrifiad:**

Ceir her barhaus ynghylch pwy sy'n berchen ar yr RIF, ac i ba raddau y mae a wnelo'r RIF â dull partneriaeth, ynteu rhywbeth arall. Ceir tensiwn cyson rhwng y materion hyn, ac mae'n arwydd o'r cydberthnasau ymddiriedol sydd (i raddau mwy neu lai) yn bodoli ar draws y Gronfa, rhwng rhanbarthau, a llywodraeth genedlaethol.

**CMOC cychwynnol sy'n dangos tystiolaeth o'r deuad:**

Pan mae gennych Gymuned Ymarfer gynhwysol (pob sector a phroffesiwn) sy'n gweithredu fel 'siop un stop' [C], mae hyn yn sbarduno cyfleoedd i arddangos prosiectau a rhannu gwybodaeth a safbwyntiau gwahanol [M]. Mae hyn yn arwain at rwydweithio oddi mewn ac oddi allan i'r Gymuned Ymarfer, gan sicrhau bod modd dilyn y wybodaeth ddiweddaraf a datblygu naratif cyffredin [O].

Mae cyfuno cyllidebau trwy ddefnyddio cyllid yr RIF [C] yn ysgogi tryloywder ynglŷn â data a hyder ynglŷn â'r broses [M], gan arwain at 'ddim dadleuon ynghylch cyllid' [O].

Pan gyfyngir ar argaeledd arian [C], mae hyn yn arwain at fonitro gweithgareddau rhwng partneriaid a sgyrsiau rheolaidd ynglŷn â chyllid [M], a gallai hyn arwain at ddadleuon rhwng asiantaethau, gan beri y bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol dalu'r bil yn y pen draw [O].

**Deuad:** Strwythur | Galluogedd

**Disgrifiad:**

Yn fwy cyffredinol, mae'r deuad olaf hwn yn cydnabod natur cyllid a ddarperir gan y llywodraeth am gyfnod penodol, fel yr RIF, a'r ffaith fod cyllid o'r fath yn gorwedd mewn paradeim arbennig. Cydnabyddir yr her a'r tensiwn a geir oddi mewn i'r RIF mewn perthynas â defnyddio galluogedd i fynd i'r afael â dulliau trawsnewid deinamig, yng nghyd-destun strwythurau sefydliadol sy'n bodoli eisoes. Caiff hyn ei ddwysáu pan fo'r galluogedd neu'r trawsnewid yn ceisio newid natur y strwythurau y gweithredir oddi mewn iddynt.

**CMOC cychwynnol sy'n dangos tystiolaeth o'r deuad:**

Os derbynnir yr RIF mewn ardal lle mae gofal integredig wedi ennill ei blwyf ers sawl blwyddyn [C], bydd hyn yn sbarduno parodrwydd i ymestyn rhwydweithiau a swyddi integredig [M], gan arwain at archwilio'r model gofal integredig gorau posib [O].

Cydweddiad | Dyhead

4.13 Diffiniwn y deuad ‘cydweddiad | dyhead’ fel a ganlyn: “Mae a wnelo’r deuad hwn â natur Cronfa y bwriedir iddi gydweddu ag amcanion polisi / hwyluso i weithredu amcanion polisi, ond sydd ag uchelgeisiau uwch o lawer na hyn, o gofio’r bwriad penodol i gyflawni’r addewid o ran darparu gwasanaethau di-dor. Yn aml, mae’r cysyniadau hyn yn gweithio’n groes i’w gilydd yn y modd y mae pobl yn disgrifio’r angen i gyflawni nodau penodol y Gronfa, yn ogystal â bod yn rhan o drawsnewidiad ‘system gyfan’ a ‘sector cyfan’.”

4.14 Mae’r CMOCs cychwynnol a ddatblygwyd yn adlewyrchu’r modd y mae’r tensiynau sy’n berthnasol i’r deuad hwn yn cyfrannu at nodau ac amcanion cyffredinol yr RIF:

> Fe wnaeth argaeledd yr RIF [C] arwain at ddatblygu ymhellach gynllun ‘Rhyddhau i Adfer yna Asesu’ (D2RA) [M], sydd wedi esgor ar ddull cwbl integredig, a gwasanaeth saith diwrnod, gan symud oddi wrth y gwasanaeth darniog a gynigiwyd o’r blaen [O].
>
> Pan geir diffyg cysylltiad rhwng prosiectau/modelau llwyddiannus ar y naill law ac ‘uwchraddio’ ar y llaw arall (h.y. y gallu i lywio a dylanwadu, nas rhoddir ar waith) [C], bydd hyn yn arwain at rwystredigaeth ymhlith arweinwyr prosiectau ar sail diffyg dylanwad ehangach [M], gan beri iddynt gredu na fydd modd iddynt ddylanwadu ar uwchraddio prosiectau na phenderfyniadau Llywodraeth Cymru [O].

4.15 Mae’r CMOC cyntaf yn cydnabod bod yr adnoddau ychwanegol o fewn yr RIF wedi ei gwneud yn bosibl i symud oddi wrth y gwasanaeth ‘arferol’ – sef gwasanaeth a oedd yn ddarniog. Mae hyn yn arwydd o natur uchelgeisiol yr RIF – mae’r gwasanaethau D2RA yn enghraifft benodol o hyn – ac mae’n dangos dylanwad cadarnhaol yr RIF, ynghyd â chydbwysedd da rhwng y pâr hwn o gysyniadau.

4.16 Mae’r ail CMOC yn adlewyrchu’r rhwystredigaeth a deimlir gan arweinwyr prosiectau oherwydd eu methiant i ddylanwadu ar newidiadau yn y modd cadarnhaol y bwriadwyd. Er bod sylfaen dystiolaeth dda i’w chael, nododd y cyfranogwyr bod diffyg cysylltiad rhwng eu dyheadau ar gyfer y dyfodol a’r realiti ar hyn o bryd. Am wahanol resymau (fel y’u nodir ym Mhennod 3), mae’r diffyg cysylltiad hwn yn bodoli, ac er ei fod yn sicrhau y cydweddir â nodau’r Gronfa, hyd yn hyn nid yw wedi llwyr gyflawni’r dyheadau trawsnewidiol hynny a bennir gan yr RIF ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal di-dor.

4.17 Yn gyffredinol, a chan fyfyrio ar natur y dystiolaeth a gyflwynir ym Mhennod 3, ymddengys y ceir sefyllfa gymharol gytbwys rhwng ‘cydweddiad’ a ‘dyhead’.

4.18 Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod ac yn parchu bod angen cydweddu â gofynion cenedlaethol a rhanbarthol y Gronfa, ond roedd gan y mwyafrif o’r cyfranogwyr ddymuniad tanbaid i bethau fod yn wahanol ac roeddynt yn cael eu cymell gan eu dyheadau i drawsnewid y system.

Rheolaeth | Cydweithrediad

4.19 “O ran y pâr hwn o syniadau, ceir cysylltiad agos iawn â’r ddeinameg pŵer sy’n rhan gynhenid o’r RIF, a’r graddau y mae rhannu pŵer (trwy gydlunio, cydgynhyrchu a chydweithredu) yn newid dros amser. Ni awgrymir yma bod y deuad hwn ar waith rhwng partneriaid cenedlaethol a rhanbarthol yn unig; cydnabyddir ei fod ar waith hefyd o fewn, a rhwng, rhanbarthau a’r sefydliadau sy’n gweithio gyda nhw.”

4.20 Roedd un CMOC cychwynnol oedd yn ymwneud â’r tensiwn rhwng rheoli a chydweithredu, a gyfunwyd o safbwynt cyfranogwyr a oedd yn gweithio mewn lleoliadau cymunedol:

> Os caiff cyllideb gymunedol ei dyrannu i hyrwyddwyr cymunedol (arweinwyr lleol) ar gyfer prosiectau a gydgynhyrchir [C], bydd hyn yn sbarduno penderfyniadau ar y cyd o fewn y gymuned ynglŷn â’r modd y dylid gwario’r arian [M], gan arwain at rymuso’r gymuned a meithrin cydberthnasau ac ymddiriedaeth [O].

4.21 Mae’r CMOC hwn yn mynd ati mewn modd cadarnhaol iawn i nodi dylanwad cyllid yr RIF a’i rôl o ran galluogi cydweithredu gyda lleoedd ac ardaloedd trwy gyfrwng ‘hyrwyddwyr cymunedol’. Yn y CMOC, ceir ymdeimlad bod y cyfranogwyr yn cael eu ‘grymuso’ i weithio ochr yn ochr â’u cymunedau, gan esgor ar ganlyniadau cadarnhaol o ran creu cydberthnasau dyfnach a mwy ymddiriedol.

4.22 Ymhellach, a chan fyfyrio’n fwy cyffredinol ar rai o’r newidiadau yn y modd y caiff yr RIF ei redeg (gweler Pennod 2), ceir ymdeimlad cyffredinol bod ymddiriedaeth a chydberthnasau’n cael eu meithrin rhwng partneriaid, yn enwedig rhwng Llywodraeth Cymru a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae heriau i’w cael o hyd o ran sicrhau’r cydbwysedd iawn rhwng ‘rheoli’ a ‘chydweithredu’ – yn wir, bydd heriau o’r fath wastad yn bodoli – ond ymddengys fod pethau’n symud tuag at ffordd gydweithredol o weithio.

4.23 Fodd bynnag, nid oedd pawb yn cytuno â hyn, a dywedodd nifer o'r cyfranogwyr bod angen ychydig mwy o reolaeth, o bosibl, mewn rhai agweddau ar waith yr RIF – dywedwyd, er enghraifft, y byddid yn croesawu mwy o reolaeth o ran eglurder pwrpas Cymunedau Ymarfer a phresenoldeb mewn Cymunedau Ymarfer. Mae'r awgrym hwn yn cyfeirio at y gwahanol ffyrdd y gellir deall ac arfer ffurfiau ar 'reoli'.

Ffyddlondeb | Hyblygrwydd

4.24 Disgrifiwn y deuad 'ffyddlondeb | hyblygrwydd' fel a ganlyn: "Ceir tensiynau amlwg drwy gydol y naratifau ar RIF sy'n ymwneud â ffyddlondeb i'r canllawiau a'r egwyddorion cynllunio sydd wrth wraidd y Gronfa ar y naill law (yn enwedig mewn perthynas â Modelau Gofal), a dymuniad y rhai sy'n ceisio gweithredu'r Gronfa'n ymarferol i gael mwy o hyblygrwydd ar y llaw arall, boed yr hyblygrwydd hwnnw'n ymwneud â chasglu data, adrodd, neu drefniadau eraill."

4.25 Mae'r ddau CMOC cychwynnol isod yn defnyddio rhai o'r heriau sydd wedi dod i ran prosiectau – yn yr achos hwn, yng nghyd-destun data ac adrodd:

> Os yw prosiectau'n ceisio mesur effeithiau (monitro a gwerthuso) ar gyfer cyllidwyr ac anghenion lleol fel ei gilydd [C], mae hyn yn sbarduno gwrthdaro, rhwystredigaeth, ac ofn o ran bod yn 'llais unig', rhwng dulliau lleol a dulliau RIF Llywodraeth Cymru [M], gan arwain at dderbyn bod angen y ddau ddull h.y. dulliau meintiol (RBS Llywodraeth Cymru) ac ansoddol (arloesol o dro i dro) [O].
>
> Mae rhai prosiectau'n cael anhawster i gael 'data pendant' [C], a phan fydd partneriaid yn gwneud cais am y data hwnnw [M], caiff data o ansawdd amheus ei rannu, heb iddo allu dangos yn llwyr sut y mae prosiectau'n cyflawni canlyniadau [O].

4.26 Mae'r CMOCs yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â dilyn gofynion y Gronfa yn ffyddlon, ac maent yn mynegi'r gofynion hyn mewn modd cymharol negyddol. Dyma enghreifftiau da o'r tensiynau fel y'u darlunnir yn y deuad hwn. Yn y CMOC cyntaf, gofynnir am fwy o hyblygrwydd i adlewyrchu'r dulliau ansoddol 'arloesol' a gaiff eu llesteirio gan y ffordd feintiol (negyddol) o weithio ac adrodd yn genedlaethol. Mae'r ffurfweddiadau hyn yn adlewyrchu ffordd o feddwl sy'n cyd-fynd â'n sylfaen dystiolaeth, ond mae angen eu gweld yng ngoleuni deuadau eraill, a'r tueddiadau ehangach fel y trafodir isod.

4.27 Mae’r ail CMOC yn nodi’r tensiwn sydd ymhlyg pan ofynnir am hyblygrwydd o ran adrodd am ddata, yn ôl canfyddiad rhai arweinwyr prosiectau – sef rhywbeth a allai arwain at gyflwyno ‘cynnyrch’ data gwell.

4.28 Fel y nodir ym Mhenodau 2 a 3, mae ymdeimlad cynyddol o ymddiriedaeth yn datblygu rhwng partneriaid rhanbarthol a chenedlaethol ar draws yr RIF. Dyma’r cyd-destun y dylid ystyried y CMOCs hyn oddi mewn iddo. Mae Llywodraeth Cymru a rhai rhanbarthau wedi cyflwyno newidiadau i ofynion adrodd. Mae dulliau adrodd mewnol yn amrywio o ranbarth i ranbarth – rhywbeth sydd, efallai, yn esbonio cynnwys y CMOCs yn rhannol. Mae hyn yn bodoli ochr yn ochr â chanfyddiadau arweinwyr prosiectau o hyblygrwydd (neu ddiffyg hyblygrwydd) dulliau adrodd.

4.29 Yr ymdeimlad cyffredinol sy’n deillio o’r rhai a gymerodd ran yng ngwerthusiad Blwyddyn 2 yw bod y sefyllfa’n newid o fod yn sefyllfa lle rhoddir cryn bwyslais ar ffyddlondeb i sefyllfa lle ceir mwy o hyblygrwydd – nid o ran parchu gofynion adrodd yn unig, ond o ran y modd y gellir gwario’r cronfeydd. Dyma un o agweddau cadarnhaol yr RIF, fel y nodir gan y cyfranogwyr ac fel y crynhoir ym Mhennod 3 – gweler Paragraff 3.12, er enghraifft.

4.30 Ar y cyfan, felly, ymddengys y llwyddir i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol o fewn y deuad. Ychydig iawn o’r ymatebwyr a ddywedodd fod yr RIF yn fwy hyblyg nag y dylai fod, neu y canolbwyntir gormod ar ffyddlondeb i’r rhaglen. Mae’r her yn hyn o beth yn ymwneud â thystiolaeth y cyfranogwyr ynglŷn â’u hymwybyddiaeth o Fodelau Gofal a ddaw i’r amlwg, ac i ba raddau y mae eu data lleol yn cyfrannu at y datblygiadau hynny.

Atebolrwydd | Ymreolaeth

4.31 Yn yr un modd â’r deuad blaenorol, cydnabyddwn y canlynol yn ein disgrifiad o’r pâr hwn o gysyniadau: “Ceir tensiynau ynghylch y cydbwysedd iawn rhwng dull cymesur o ymdrin ag atebolrwydd, llywodraethu a gwario arian cyhoeddus, ochr yn ochr â chefnogi a ffafrio ymdeimlad mwy o ymreolaeth. Unwaith eto, mae’r tensiynau hyn yn gweithredu ar sawl lefel, a rhwng amryfal bartneriaid – o’r cenedlaethol i’r rhanbarthol, o’r rhanbarthol i’r lleol, ac yn ôl drachefn.”

4.32 Gan adeiladu ar y tensiynau a nodir yn y disgrifiad uchod, crëwyd dau CMOC cychwynnol; mae un yn canolbwyntio mwy ar elfen ‘atebolrwydd’ y deuad ac mae’r llall yn canolbwyntio mwy ar yr elfen ‘ymreolaeth’.

Gwelwyd bod dymuniad i ymwreiddio syniadau mewn modd dwfn, ystyrlon a chynaliadwy [C] wedi arwain at gydnabod bod cyllid yn cael ei daenu'n rhy denau, a bod angen gwneud penderfyniadau anodd i gadarnhau a lledaenu dysgu lleol [M] – sef rhywbeth a arweiniodd at benderfynu lleihau nifer y prosiectau a ariennir [O].

Trwy ddefnyddio amryfal ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu ymyriad gweithredol [C], bu modd datblygu a defnyddio gweithdrefnau gweithredu safonol rhwng timau [M], gan arwain at gyflymu penderfyniadau ar draws y tîm amlbroffesiwn [O].

4.33 Mae'n bosibl mai sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng y deuadau hyn yw un o'r pethau anoddaf i'w gyflawni. Fel y cydnabyddir yn y CMOC cyntaf, mae'r awydd i roi mwy o ymreolaeth i brosiectau a rhanbarthau yn esgor ar her wirioneddol (a chanlyniad anfwriadol). Fel y dengys y CMOC hwn, gall arwain at benderfyniadau sy'n golygu bod prosiectau'n cael eu dirwyn i ben.

4.34 Mae'r ail CMOC yn tynnu sylw at agwedd fwy cadarnhaol ar y tensiwn rhwng y cysyniadau hyn. Mae'n dangos sut y gall rhoi mwy o ymreolaeth i dimau arwain at ganlyniadau gwell yn eu cydberthnasau gweithio – ar lefel y prosiect. Mae'r CMOC hwn yn cyflwyno tystiolaeth bod cydbwysedd da i'w gael rhwng atebolrwydd ac ymreolaeth.

4.35 Ar draws yr RIF yn fwy cyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng y cysyniadau hyn yn fater 'byw'. Mae'r cyllid pum mlynedd sy'n gysylltiedig â'r RIF wrth wraidd y ddadl hon, a dywedodd nifer o'r cyfranogwyr fod yr ymreolaeth a gynigir gan y cyllid dros gyfnod mor faith wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant yr RIF. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch atebolrwydd wedi peri i rai rhanbarthau fod yn fwy ceidwadol yn eu dull o ymdrin â chyllid, ac mae rhai partneriaid (yn enwedig yn y trydydd sector o gymharu â'r sector cyhoeddus) wedi dweud eu bod yn dal i gael setliadau cyllid 'o un flwyddyn i'r llall' – sef rhywbeth sy'n lleihau eu gallu i gynnig contractau gwaith estynedig ac i gynllunio'n strategol.

4.36 Derbynnir nad yw Canllawiau'r RIF (Llywodraeth Cymru, 2022) yn cymell Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynnig cyllid i bob partner ar gyfer cyfnod llawn y cyllid. Ymhellach, ni all rhai rhannau o Gymru egluro'u gweithgareddau yn y modd y bwriadwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn arwain at densiynau rhwng atebolrwydd ac ymreolaeth.

Perchnogaeth | Partneriaeth

4.37 Disgrifiwn y tensiynau rhwng perchnogaeth a phartneriaeth fel a ganlyn: “Ceir her barhaus o ran pwy sy’n berchen ar yr RIF, ac i ba raddau y mae a wnelo’r RIF â dull partneriaeth, ynteu rhywbeth arall. Ceir tensiwn cyson rhwng y materion hyn, ac mae’n arwydd o’r cydberthnasau ymddiriedol sydd (i raddau mwy neu lai) yn bodoli ar draws y Gronfa, rhwng rhanbarthau, a llywodraeth genedlaethol.”

4.38 Mae ein dadansoddiad yn pennu tri CMOC sy’n cynrychioli’r materion sydd wrth wraidd y deuad hwn:

> Pan mae gennych Gymuned Ymarfer gynhwysol (pob sector a phroffesiwn) sy’n gweithredu fel ‘siop un stop’ [C], mae hyn yn sbarduno cyfleoedd i arddangos prosiectau a rhannu gwybodaeth a safbwyntiau gwahanol [M]. Mae hyn yn arwain at rwydweithio oddi mewn ac oddi allan i’r Gymuned Ymarfer, gan sicrhau bod modd dilyn yr wybodaeth ddiweddaraf a datblygu naratif cyffredin [O].
>
> Mae cyfuno cyllidebau trwy ddefnyddio cyllid yr RIF [C] yn ysgogi tryloywder ynglŷn â data a hyder ynglŷn â’r broses [M], gan arwain at ‘ddim dadleuon ynghylch cyllid’ [O].
>
> Pan gyfyngir ar argaeledd arian [C], mae hyn yn arwain at fonitro gweithgareddau rhwng partneriaid a sgyrsiau rheolaidd ynglŷn â chyllid [M], a gallai hyn arwain at ddadleuon rhwng asiantaethau, gan beri y bydd yn rhaid i’r awdurdod lleol dau’r bil yn y pen draw [O].

4.39 Mae’r CMOC cyntaf yn disgrifio cydbwysedd cadarnhaol iawn rhwng grymoedd croes ‘perchnogaeth’ a ‘phartneriaeth’. Cydnabyddir bod yr RIF yn ysgogi’r arfer o rannu gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth a mewnwelediadau newydd, ac awgryma’r CMOC hwn y ceir cydbwysedd da rhwng perchnogaeth a phartneriaeth.

4.40 Mae’r ddau ddatganiad arall yn sôn am elfen wahanol o fewn y deuad hwn – sy’n ymwneud â pherchnogaeth/partneriaeth dros y cyllid. Mae’r ail CMOC yn cyfleu’n gadarnhaol iawn bod cyfuno cyllidebau trwy ddefnyddio cyllid yr RIF wedi arwain at ddatblygu gwir ymdeimlad o bartneriaeth, a bod hynny’n rhywbeth a gaiff ei werthfawrogi. Ond mae’r trydydd CMOC yn adleisio dadleuon yn y deuad blaenorol (ynglŷn â’r tensiynau rhwng atebolrwydd ac ymreolaeth) yn yr ystyr ei fod yn dangos y gall pwysau cynyddol ar gyllidebau beri i bartneriaid rhanbarthol gystadlu mwy

gyda'i gilydd, a bod y fantol yn cael ei throi o blaid 'perchnogaeth' ar draul 'partneriaeth'.

4.41 Fel yn achos y deuad blaenorol, awgrymir bod pethau'n symud tuag at gydbwyso'r tensiynau rhwng perchnogaeth a phartneriaeth. Fodd bynnag, ceir pryderon nad yw'r cydbwysedd hwn yn gyfartal eto; ac wrth i'r pwysau ar gyllidebau gynyddu, efallai y bydd materion yn ymwneud â 'pherchnogaeth' yn hytrach na 'phartneriaeth' yn dod fwyfwy i'r amlwg.

Strwythur | Galluogedd

4.42 Yn fwy cyffredinol o bosibl, mae'r deuad olaf hwn yn cydnabod natur cyllid a ddarperir gan y llywodraeth am gyfnod penodol, fel yr RIF, a'r ffaith fod cyllid o'r fath yn gorwedd mewn paradeim arbennig. Fel yr awgrymir gennym: "Cydnabyddir yr her a'r tensiwn a geir oddi mewn i'r RIF mewn perthynas â defnyddio galluogedd i fynd i'r afael â dulliau trawsnewid deinamig, yng nghyd-destun strwythurau sefydliadol sy'n bodoli eisoes. Caiff hyn ei ddwysáu pan fo'r galluogedd neu'r trawsnewid yn ceisio newid natur y strwythurau y gweithredir oddi mewn iddynt."

4.43 Pennwyd un CMOC sy'n sôn am y tensiynau o fewn y deuad hwn:

> Os derbynnir yr RIF mewn ardal lle mae gofal integredig wedi ennill ei blwyf ers sawl blwyddyn [C], bydd hyn yn sbarduno parodrwydd i ymestyn rhwydweithiau a swyddi integredig [M], gan arwain at archwilio'r model gofal integredig gorau posib [O].

4.44 Y 'maen prawf llwyddiant' allweddol a nodir yn y CMOC hwn yw amser – sef amser ar gyfer sefydlu cyfres o ddisgwyliadau'n ymwneud â'r cydbwysedd rhwng strwythur a galluogedd, ac amser ar gyfer datblygu cydberthnasau gweithio aeddfed. Pan fo prosiectau'r RIF wedi'u lleoli mewn timau sydd wedi ennill eu plwyf, bydd modd i unrhyw drefniant mewn perthynas â 'gweithio integredig' ddechrau o le gwahanol, a golyga hyn y ceir gwell siawns o lawer o allu ymwreiddio'r model gweithio amlbroffesiwn gorau posibl.

4.45 Mae'r deuad hwn yn ymwneud â materion sydd, o bosibl, y tu hwnt i ddylanwad yr RIF. Mae'r tensiwn rhwng y cysyniadau hyn wedi'u seilio ar y ffaith bod yr RIF yn bodoli oddi mewn i gyd-destun gweithredol a pholisi cyfnewidiol, ond nid yw'n ymwneud â newid strwythurol neu sefydliadol *per se*. Wedi dweud hyn, mae'r RIF yn coleddu dyhead i bobl weithio fel 'asiantau dros newid' er mwyn esgor ar drawsnewid ledled iechyd a gofal cymdeithasol, gan arwain at wasanaethau di-dor

trwy fabwysiadu arferion newydd. Nid yw'r RIF yn rhagnodi natur ffurfiau newydd ar lywodraethu, ffurfiau sefydliadol newydd na mathau newydd o weithwyr. 'Gwaith ar y gweill' yw hwn; er, efallai y bydd datblygiadau cynyddol mewn Modelau Gofal cenedlaethol yn esgor maes o law ar rai atebion i'r tensiwn sy'n bodoli o fewn y deuad hwn.

**Asesu a dehongli'r profiad gweithredu**

4.46 Pam y mae'r ystyriaeth fanwl hon o'r cysyniadau hyn a'r cydbwysedd perthynol rhyngddynt, yn bwysig? Trwy ddeall y cyd-destunau deinamig (Patton, 2018), yn ogystal â deall rhai o'r tensiynau cynhenid yn naratifau'r RIF a ble yn union y gorwedd y cydbwysedd rhwng y cysyniadau hyn, dadleuwn fod modd inni ddeall beth sy'n gweithio, ble, ac ym mha amgylchiadau, a thrwy hynny bod modd inni ddeall sut y mae'r RIF yn gallu cyflawni ei nodau. Hefyd, mae'n cynnig cyfleoedd inni siapio ein gwaith gwerthuso er mwyn archwilio ymhellach sut y mae'r deuadau hyn yn gweithredu, a pha effaith a gânt o ran canlyniad yr RIF.

4.47 Felly, beth mae'r dystiolaeth a gyflwynir uchod yn ei olygu ar gyfer mapio'r cydbwysedd rhwng y cysyniadau sy'n bodoli oddi mewn i'r RIF? Yn Ffigur 5.3 (drosodd), cyflwynir ein hasesiad cyfredol o ble yn union y gorwedd y cydbwysedd ar draws y chwe deuad ar hyn o bryd. Teitl Ffigur 5.3 yw'r 'goblygiadau gweithredu'; rydym wedi pennu'r goblygiadau ar sail y dystiolaeth a gasglwyd gennym ar gyfer y chwe phâr o gysyniadau. Isod, ceir crynodeb o bob un, ar sail y dystiolaeth a grynhoir yn yr adroddiad hwn – hynny yw, tystiolaeth o Bennod 2 ynglŷn â'r cyd-destun newidiol, tystiolaeth o Bennod 3 sy'n ymdrin â'r cyfranogwyr, neu dystiolaeth o'r bennod hon sy'n defnyddio'r CMOCs uchod.

4.48 Felly, ar sail ein tystiolaeth:


- Cydweddiad | Dyhead – ceir cydbwysedd da yn y cysyniadau yma ar hyn o bryd.
- Rheolaeth | Cydweithrediad – ni cheir cydbwysedd ar hyn o bryd, ond dim ond rhywfaint mwy o bwyslais a roddir ar gydweithredu o gymharu â rheoli.
- Ffyddlondeb | Hyblygrwydd – ceir cydbwysedd da yn y cysyniadau yma ar hyn o bryd.
- Atebolrwydd | Ymreolaeth – ni cheir cydbwysedd ar hyn o bryd, ond dim ond rhywfaint mwy o bwyslais a roddir ar atebolrwydd o gymharu ag ymreolaeth.

- Perchnogaeth | Partneriaeth – ni cheir cydbwysedd ar hyn o bryd, ond dim ond rhywfaint mwy o bwyslais a roddir ar berchnogaeth o gymharu â phartneriaeth.
- Strwythur | Galluogedd – ni cheir cydbwysedd ar hyn o bryd, ond dim ond rhywfaint mwy o bwyslais a roddir ar strwythur o gymharu â galluogedd.

4.49 Yn gyffredinol, gellir coleddu safbwynt optimistaidd, fel y dengys y cydbwysedd yn y deuadau – ar y cyfan, mae’r darlun hwn yn eithaf cadarnhaol, ar sail y profiad gweithredu. Trwy fynd i’r afael â gwaith ychwanegol, bydd modd i’r tîm bennu a fydd y deuadau lle ceir cydbwysedd llwyr (neu gydbwysedd da) yn galluogi’r RIF i esgor ar y ‘canlyniadau a chwenychir’ (Patton, 2018) yn y gwaith a wnawn yn y dyfodol.

4.50 Ond mae’n bwysig nodi bod y cyd-destunau hyn yn ‘gyd-destunau deinamig’, yng ngeiriau Patton, a bod modd i’r sefyllfa amrywio a newid – mewn perthynas â pholisïau, elfennau strategol ac elfennau gweithredol.

**Ffigur 5.3: Goblygiadau gweithredu ar draws deuadau cysyniadol yr RIF – cyfredol (Ionawr 2025)**



4.51 Ymhellach, dim ond ar sail y ffynonellau tystiolaeth a ddisgrifir uchod y gwneir y penderfyniadau hyn. Hyd yma, ni chânt eu hategu gan ddata cyfatebol o'r radd flaenaf sy'n deillio o bob rhan o Gymru, oherwydd mae angen gwella hyder yn y data hwn. Ond mae gwaith ar droed i wella ansawdd y mesurau craidd cenedlaethol.

**Casgliad – 'Tuag at system gofal cymunedol integredig'**

4.52 Bydd y materion hyn yn parhau i gael eu harchwilio'n fanwl wrth i werthusiad yr RIF fynd rhagddo. Daw gwersi i'r amlwg yn y fan hon ynglŷn â'r broses o symud oddi wrth y 'theori' bod yr RIF yn gyfres o syniadau, egwyddorion a ffyrdd o redeg cronfa, tuag at y realiti a'r ymarfer sydd wedi bod ar waith ers 2022.

4.53 Wrth inni ddirwyn y cam hwn o'n gwaith i ben, mae'n bwysig cydnabod ym mha gyd-destun y caiff y gwaith ei wneud. Fel y nodir ym Mhennod 2, mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n datblygu polisïau ynglŷn â'r 'System Gofal Cymunedol Integredig' (ICCS). Mae pedwar o'r casgliadau a gynhwysir yn yr adroddiad diweddaraf (Llywodraeth Cymru, 2024: 58) yn cynnig cefndir ar gyfer yr adroddiad hwn gogyfer Blwyddyn 2. Mae'r pedair blaenoriaeth ganlynol (o blith y saith a nodir) yn arbennig o addas i'n gwaith:

2. Hyrwyddo arferion gorau a phrosiectau llwyddiannus gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyflwyno prosiectau llwyddiannus i ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill.
3. Gwella lefel y data ansoddol a gyflwynir a dwyn ynghyd y 'stori newid' drwy gyfrwng gwaith ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar unigolion dros oes y prosiect.
4. Gwella'r broses o gipio data 20 mesur perfformiad meintiol i ganiatáu ar gyfer dealltwriaeth fwy cyson o'r effaith ar unigolion a'r system gyfan.
5. Rhannu arferion gorau a dysgu drwy Gymunedau Ymarfer i ddatblygu manylebau cenedlaethol ymhellach ar gyfer ein modelau gofal a rhai o'r cydrannau allweddol.

Hyderwn fod yr adroddiad hwn wedi cyfrannu at y pedair blaenoriaeth hyn. Wrth i'n gwaith gwerthuso fynd rhagddo, byddwn yn sicrhau ei fod yn rhoi ystyriaeth bellach i'r blaenoriaethau hyn wrth inni symud tuag at ddeall yr effaith y mae'r RIF wedi'i chael mewn perthynas â'r 'canlyniadau a chwenychir' (Patton, 2018).

## Cyfeiriadau


Bebb, H., Bryer, N. a Grover, T. (2025) Qualitative Interviews Report: Implementation. Caerdydd; Llywodraeth Cymru.

Bryer, N. a Bebb, H. (2024) Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Y Cam Cysyniadu – canfyddiadau cyfweliadau cwmpasu manwl gyda rhanddeiliaid allweddol Dogfen Tystiolaeth Ategol 4. Adroddiad GSR 01/2025. Ar gael ar: Gwerthusiad o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Chwefror 2023 i Hydref 2024 | LLYW.CYMRU

Jagosh, J. (2019) 'Realist Synthesis for Public Health: Building an Ontologically Deep Understanding of How Programs Work, For Whom, and In Which Contexts,' Annual Review of Public Health, 40, tt. 361-72. DOI: Realist Synthesis for Public Health: Building an Ontologically Deep Understanding of How Programs Work, For Whom, and In Which Contexts | Annual Reviews

Llewellyn, M. a Verity, F. (2024) O theori i ymarfer: cysyniadu egwyddorion canllaw y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Caerdydd. Llywodraeth Cymru.

Llewellyn. M, Verity. F, Wallace. S, Calder. G, Garthwaite. T, Lyttleton-Smith. J, a Read, S. (2023). O'r Ddeddf i'r Effaith? Adroddiad Terfynol ar Werthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR 36/2023. Ar gael ar: Adroddiad terfynol: gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | LLYW.CYMRU

Arolygiaeth Iechyd Cymru (2024) Adroddiad Blynyddol 2023-2024. Ar gael ar: Adroddiad Blynyddol 2023 - 2024 | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Patton, M. Q. (2018). Principles-Focused Evaluation – The GUIDE. Efrog Newydd: Gwasg Guilford

Pawson, R a Tilley, N. (1997) Realistic Evaluation. Sage: Llundain

Tetlow, S., Wallace, C., Wallace, S., Llewellyn, M. a Verity F. (2024) Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Adolygiad Llenyddiaeth Realaidd Cyflym. Dogfen Tystiolaeth Ategol 2. Adroddiad GSR 01/2025. Ar gael ar: Gwerthusiad o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Chwefror 2023 i Hydref 2024 | LLYW.CYMRU

Verity, F a Llewellyn, M (2023) Fframwaith ar gyfer Newid: Cyfarwyddiadau, egwyddorion ac amcanion arweiniol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dogfen Tystiolaeth Ategol 1. Adroddiad GSR 01/2025. Ar gael ar: Gwerthusiad o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Chwefror 2023 i Hydref 2024 | LLYW.CYMRU

Wallace, C. a Wallace, S. (2024) Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Adroddiad Mapio Cysyniad Grŵp - Cysyniadu. Dogfen Tystiolaeth Ategol 3. Adroddiad GSR 01/2025. Ar gael ar: Gwerthusiad o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Chwefror 2023 i Hydref 2024 | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Llywodraeth Cymru. (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Llywodraeth Cymru. (2018) Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Ar gael ar: Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU – cyrchwyd ar 13 Gorffennaf 2023.

Llywodraeth Cymru. (2022) Canllawiau, Y Gronfa Integreidio Rhanbarthol ar gyfer Iecyd a Gofal Cymdeithasol 2022-2027. Ar gael ar: Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Canllawiau Refeniw 2022-23

Llywodraeth Cymru (2024a) Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Adroddiad blynyddol y flwyddyn gyntaf 2022-23 gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer 2023-24. Ar gael ar: Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru (2024b) *2024* Cynllun ar gyfer Gofal Iechyd a Chymdeithasol 2024. Ar gael ar: Cynllun ar gyfer gofal iechyd a chymdeithasol 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2024c) ‘Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Sefyllfa System Gofal Cymunedol Integredig. Datganiad Cabinet gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol - 20 Rhagfyr 2024. Ar gael ar: Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Sefyllfa System Gofal Cymunedol Integredig (20 Rhagfyr 2024) | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2024d) Tuag at System Gofal Cymunedol Integredig. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: Tuag at System Gofal Cymunedol Integredig

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2023) Summary of Social Services Financial Pressures: 2025/6 and onwards.